



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk



ADRODDIAD BLYNYDDOL A
CHYFRIFON YR ASIANTAETH
SAFONAU BWYD YNG
NGHYMRU 2018/19

Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru 2018/19

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019)



© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifâu Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mewn mannau lle'r ydym ni wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy www.gov.uk/government/publications
Dylid anfon unrhyw ymholaadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom mewn e-bost at financial.accounting@food.gov.uk.

CYNNWYS

ADRODDIAD PERFFORMIAD

Trosolwg o Berfformiad	3
Rhagair y Cadeirydd	3
Datganiad y Prif Weithredwr	6
Gweithgareddau a Pherfformiad yn 2018/19	9
Rheoleiddiwr Gwych, Atebol a Modern	10
Prif risgiau ac elfennau ansicrwydd	65
Dadansoddi Perfformiad	70
Camau Gorfodi Ffurfiol (Cymru, Lloegr)	70
Camau Gorfodi Ffurfiol (Gogledd Iwerddon)	71
Erlyniadau	71
Cwynion gan Gynnwys y Rhai Hynny a Wnaed i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth lechyd ..	72
Adrodd am Gynaliadwyedd	73

Saesneg yn unig o hyn ymlaen

ACCOUNTABILITY

Directors' report	75
Details of the Board and Directors	75
Management commentary	78
Statement of Accounting Officer's responsibilities	83
FSA Governance Statement 2018/19	84
Remuneration report	95
The Certificate and Report of The Comptroller and Auditor General to The National Assembly for Wales	111



ACCOUNTS

Financial Statements	115
Statement of Comprehensive Net Expenditure	115
Statement of Financial Position	116
Statement of Cash Flows	117
Statement of Changes in Taxpayer' Equity.....	118
Notes to the Departmental Resource Accounts.....	119
Accounts direction given by the Welsh Assembly Government.....	129

TROSOLWG O BERFFORMIAD

RHAGAIR Y CADEIRYDD



Eleni, mae'r broses o Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi hawlio'r penawdau ac wedi dominyddu agenda Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Rydym ni wedi parhau yn driw i'r uchelgais a amlinellwyd gennym ddwy flynedd yn ôl. Pan fydd y Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r UE, rydym ni wedi bod yn benderfynol na fydd bwyd yn llai diogel, na fydd defnyddwyr yn cael eu diogelu i raddau llai ac y byddai ein hymrwymiad i gynnal system reoleiddio agored a thryloyw sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth yn parhau i fod yn gadarn.

Erbyn mis Mawrth 2019, roedd gwaith dylunio a gweithredu dwys ar draws yr ASB gyfan, wedi'i lywio gan y Bwrdd, wedi creu system reoleiddio gyflawn a oedd yn barod i weithredu y tu allan i weithrediadau'r UE a'r systemau rydym ni'n dibynnu arnynt yn bresennol. Mae hwn yn gyflawniad rhagorol gan ein swyddogion, gan weithio'n agos â chydweithwyr ar draws Llywodraethau a'r diwydiant. Unwaith y byddwn ni'n gweithredu'r system hon go iawn, yn amlwg bydd gofyn mireinio wrth fwrw rhagddi. Ond rydym ni wedi datblygu'r dull dadansoddi risg mwyaf agored a thryloyw posibl sy'n bodoli'n fydd-eang, ac rydym ni wedi manteisio ar y cyfle i fynd ymhellach, ac yn gyflymach ar rannau hanfodol o'r gyfundrefn reoleiddio. Mae hwn yn fan cychwyn da i sicrhau llwyddiant yr ASB y tu allan i fframweithiau'r UE.

Enghraifft dda o wneud pethau'n well yw'r dull newydd o gynnal gwyliadwriaeth y byddwn ni'n ei gynnal y tu allan i'r UE. Yn y 12 mis diwethaf, mae'r ASB wedi adeiladu, treialu a lansio dull rhagweithiol a systematig tuag at wyliadwriaeth. Mae'n rhoi ystyriaeth fwy hirdymor i risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y system fwyd, yn manteisio ar ddata a thechnoleg, ac yn tynnu ar fewnbwn o ffynonellau data byd-eang a chenedlaethol gan gynnwys y byd academaidd, rhannau eraill o'r Llywodraeth, a'r diwydiant. Bydd gallu rhagweld newidiadau mewn risgiau bwyd a bwyd anifeiliaid, yn hytrach nag adweithio i risgiau sydd eisoes yn dod i'r amlwg, yn golygu bod modd diogelu yn well ac yn gyflymach a sicrhau gwell gwerth am arian. Yn 2019/20, byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth risg y mae'r wyliadwriaeth hon yn ei chreu i lywio strategaeth samplu genedlaethol amgen.

Wrth gwrs, mae'r ASB eisoes â systemau rheoli digwyddiadau profedig ar waith i ddiogelu defnyddwyr pan aiff pethau o chwith. Rydym ni'n delio â dros 2,000 o ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid bob blwyddyn, bron bob un ohonynt ar raddfa fach. Pan fydd problemau ar draws ffiniau, mae systemau hysbysu'r UE yn chwarae rhan bwysig o ran rheoli digwyddiadau. Y tu allan i'r UE, gallwn barhau i elwa ar hysbysiadau lle maent yn ymwneud â bwyd y DU, ond mae'n bosibl na fydd gennym ni fynediad llawn at yr wybodaeth ehangach mae'r systemau hyn yn ei darparu. Rydym ni wedi buddsoddi i gryfhau'r broses o reoli digwyddiadau, creu system newydd i roi cynnig ar ffynonellau ehangach o wybodaeth, nad ydynt wedi'u cyfyngu i hysbysiadau'r UE.

Mae hyn eisoes wedi arwain at ganlyniadau da, ac rydym ni wedi gallu gweithredu'n gyflymach ar ddigwyddiadau sy'n dod i'r amlwg. Rydym ni'n meithrin perthnasau cryf ag awdurdodau diogelwch bwyd ar draws Ewrop ac ar draws y byd: rydym ni gyd yn gallu elwa ar rannu gwybodaeth. Yn fwy diweddar, rydym ni wedi cynyddu ein cysylltiad ag INFOSAN (y Rhwydwaith Awdurdodau Diogelwch Bwyd Rhyngwladol), a gaiff ei reoli ar y cyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) a Sefydliad lechyd y Byd (WHO) y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn rhoi i ni 'gyrhaeddiad' helaeth a fframwaith ar gyfer cyfathrebu materion diogelwch bwyd gyda gwledydd ar draws y byd.

Mae'r Bwrdd yn falch, wrth fwrw ymlaen â pharatoadau ar gyfer Ymadael â'r UE, fod yr ASB wedi llwyddo i barhau â'r cynnydd tuag at ein dyhead i foderneiddio'r system rheoleiddio bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Un o'r prif lwyddiannau oedd cyflwyno system ddigidol syml i gofrestru busnesau bwyd gydag awdurdodau lleol. Ar ôl peilota'r cynllun yn llwyddiannus gyda sawl awdurdod, rydym ni nawr yn bwriadu cyflwyno'r system ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Fe wnaethom ni hefyd droi ein polygon at ddiwygio'r ddarpariaeth safonau bwyd. Yn yr hydref, fe gyhoeddwn ni adroddiad yn nodi'r problemau sylfaenol wrth ddarparu sicrwydd ag arolygiadau safonau bwyd ar draws y tair gwlaid. Roedd hyn yn cadarnhau darlun annerbyniol ac yn rhoi sail dystiolaeth i ni weithio gydag awdurdodau lleol a'r proffesiynau i ddylunio model cyflenwi newydd, addas at ei ddiben ar gyfer safonau bwyd.

Mae gan fusnesau bwyd rôl allweddol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel, ond mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo rhywun yn byw gydag alergedd neu anoddefiad bwyd – lle mae'r gallu i wneud dewisiadau bwyd diogel yn hanfodol. Dros y blynnyddoedd diweddar, rydym ni wedi gweld nifer o unigolion yn eu harddegau ac oedolion ifanc yn marw o ganlyniad i'w halergedd.

Mae ein hymgyrch #hawddHOLI, a lansiwyd hydref diwethaf, yn anelu at helpu'r grŵp hwn o bobl i fod yn fwy hyderus o ran holi am wybodaeth am alergenau wrth fwyta allan neu gael tecawê. Rydym ni'n annog busnesau i fod yn well am gynnig gwybodaeth gywir am alergenau, ac i fod yn rhagweithiol o ran gwneud i'w cwsmeriaid iau deimlo'n gyfforddus i holi amdan. Mae alergeddau ac anoddefiadau yn rhan gynyddol bwysig o ffocws yr ASB, ac rydym ni'n bwriadu cynnal rhaglen gynhwysfawr ar orsensitifrwydd i fwyd dros y flwyddyn i ddod.

Rydym ni eisiau mwy o dystiolaeth o ansawdd uwch ar beth sy'n bwysig i ddefnyddwyr, ar ymddygiad busnesau ac ymddygiad personol a'r hyn sy'n ysgogi pobl, ar ddylunio ymyriadau sy'n gweithio i bobl. Fis Mai diwethaf, fe benodon ni Bwyllgor Cynghori newydd ar gyfer Gwyddor Gymdeithasol i fynd i'r afael â'r briff estynedig hwn, gan ddwyn ynghyd arbenigedd helaeth mewn newid ymddygiad a chyfathrebu risg.

Yng Ngogledd Iwerddon, llwyddodd ein rhaglen 'Eating Well Choosing Better' i ddenu sylw gyda'i ffocws ar sgons – sy'n fwyd poblogaidd ond sydd hefyd yn aml yn cynnwys lefelau uchel o siwgr, braster, halen a chaloriâu. Roedd y sylw helaeth a ddenodd y mater yn y wasg yn cynnwys ein hymrwymiad i helpu busnesau i ail-fformiwlleiddio ryseitiau, lleihau maint dognau a lefelau siwgr, halen a braster mewn cynhyrchion wedi'u pobi yn ogystal â chynyddu faint o gynhyrchion iach sydd ar gael mewn siopau a chaffis lleol.

Defnyddwyr yng Nghymru oedd y rhai cyntaf i elwa ar y mesurau gorfodol i arddangos sticeri'r sgoriau hylendid bwyd: mae'n rhoi iddynt ffordd gyflym a hawdd i wybod am safonau hylendid mewn busnesau bwyd. Ers ei gwneud yn ofynnol i arddangos sgoriau, rydym ni wedi gweld gwelliannau pellach mewn safonau hylendid, gyda 96% o fusnesau yn cael sgôr o 3 ('Boddhaol ar y cyfan') neu uwch. Dangosodd pumed adolygiad yr ASB o weithrediad system apelio'r CSHB yng Nghymru duedd gynyddol mewn busnesau yn ennill sgôr o 3 neu 4 ('Da') yn arfer eu hawl i apelio – sy'n nodi'r gwerth y mae busnesau yn ei roi ar gael sgôr uwch.

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) wedi parhau i gofnodi cynnydd mewn safonau ar hyd a lled Cymru a Lloegr, ac yng Ngogledd Iwerddon, lle mae hi hefyd yn orfodol i arddangos sticeri. Ar y cyfan, llwyddodd 96.5% o fusnesau bwyd i gael sgôr o 3 neu uwch a 71.8% i gael sgôr o 5. Rydym ni'n credu bod arddangos sgoriau yn gwella cydymffurfiaeth â diogelwch bwyd ac yn gwella diogelwch iechyd y cyhoedd. Mae ein dyhead i'w wneud yn gynllun gorfodol yn Lloegr yn parhau.

Fel ag erioed, rydym ni wedi gweld newidiadau eto eleni o ran uwch arweinyddiaeth yr ASB. Bu i ni ffârvelio â'r Dirprwy Gadeirydd Laura Sandys a'r aelod Bwrdd Rosie Glazebrook ym mis Mawrth 2019. Maent yn gadael gyda'n dymuniadau gorau a'n diolch am eu harweinyddiaeth, yn arbennig o ran sicrhau bod y defnyddiwr yn dod gyntaf ym mhôpeth mae'r ASB yn ei wneud.

Dros yr haf, bydd ein Prif Weithredwr Jason Feeney yn ymddeol ar ddiwedd gyrfa 38 mlynedd yn y Gwasanaeth Sifil. Ymunodd Jason â'r ASB fel Prif Swyddog Gweithredol yn 2015 a dæth yn Brif Weithredwr ym mis Ebrill 2017. Mae wedi bod yn Brif Weithredwr ardderchog i'r ASB, yn ystod rhai o'r blynyddoedd mwyaf heriol ym modolaeth yr adran hon. Mae ei arweinyddiaeth bersonol ar Ymadael â'r UE wedi bod yn rhagorol. Rwy'n siarad ar ran y Bwrdd cyfan wrth ddweud pa mor ddiolchgar ydym ni fod Jason wedi dewis dod â'i yrfa nodedig i ben drwy arwain yr ASB i ddyfodol cyffrous.



Heather Hancock DL LVO
Cadeirydd, Asiantaeth Safonau Bwyd

DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR



Mae'n bleser gen i osod ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd San Steffan, a chyflwyno i Gynulliad Gogledd Iwerddon, Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r rhifyn hwn yn ymddyri â'n gweithgarwch yn 2018/19 ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon am gost net o £98.7 miliwn.

Fel un o'r adrannau llywodraethol y mae Ymadael â'r UE yn effeithio arni fwyaf, mae'r flwyddyn hon wedi'i dominyddu gan baratoadau ar gyfer amrywiaeth o ganlyniadau posibl, gan arwain at y rhaglen waith fwyaf cymhleth ac arwyddocaol yn hanes yr ASB.

Mae wedi effeithio ar bob rhan o'r sefydliad, wedi gofyn am aildrefnu sylweddol i adlewyrchu ein cyfrifoldebau newydd a rhaglen sylweddol o reciwtio i gryfhau ein gallu gwyddonol, polisi, troseddau bwyd a rheng flaen. Wrth baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE, aethom ni ati i reciwtio dros 40 o wyddonwyr allanol annibynnol ar gyfer ein pwylgorau gwyddonol, a mwy na 100 o benodiadau mewnol newydd.

Rydym ni wedi dylunio a datblygu system dadansoddi risg bwyd newydd i'n galluogi i gyflawni ein cylch gwaith ar ôl ymadael â'r UE. Mae ein prosesau a'n gweithdrefnau wedi'u hailddylunio i wella'r ffordd yr ydym ni'n delio â risgiau, o asesiadau seiliedig ar wyddoniaeth i'n hymateb polisi i reoli risg. Bydd y dull newydd hwn yn adfywio ac yn atgyfnerthu ein dull seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolæth ac yn gosod safonau newydd o dryloywder.

Mewn meysydd allweddol eraill, gan gynnwys gwyliadwriaeth, sganio'r gorwelion, rheoli digwyddiadau a throseddau bwyd, rydym ni wedi datblygu a chyflwyno systemau a galluoedd newydd sy'n golygu ein bod ni mewn gwell sefyllfa nag erioed o'r blaen i gyflawni mewn cyd-destun unrhyw system fwyd newydd neu amgylchedd gweithredu newydd.

Y prif nod drwy gydol ein paratoadau oedd sicrhau bod gennym ni system fwyd sy'n gweithredu'n llawn fel y gall dinasyddion barhau i ymddiried yn y bwyd maent yn ei fwyta ac sy'n galluogi partneriaid masnachu, hen â newydd, i fod â hyder yn y bwyd a'r diod a gynhyrchir yn y DU. Rydym ni'n parhau i roi pwyslais ar fod yn agored ac yn dryloyw ym mhopheth a wnaeth yn ogystal â'r system fwyd gyfan.

Mae ein rhaglen baratoi ar gyfer ymadael â'r UE wedi cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol ag adrannau llywodraethol eraill, sefydliadau partner, y diwydiant a rhanddeiliaid eraill o gyflenwyr i ddefnyddwyr. Cafodd ei chynnal ar amser, o fewn y gyllideb ac yn unol â disgwyliadau a chynlluniau.

Cafodd ein rhaglen 'Rheoleiddio Ein Dyfodol' hefyd ei hail-lunio eleni i roi mwy o ffocws ar yr elfennau hynny a fyddai'n cefnogi'r gweithgarwch ymadael â'r UE, gan gynnwys Strategaethau Arolygu Cenedlaethol. Rydym ni wedi gweithio â phartneriaethau Prif Awdurdod sy'n datblygu strategaethau arolygu cenedlaethol a bydd treialon byw yn dechrau eleni.

Mae ein dylanwad a'n harweinyddiaeth ar safonau rhyngwladol a modelau cyflenwi allweddol wedi cynyddu ymhellach dros y flwyddyn ddiwethaf a chaiff ei gydnabod a'i groesawu gan ein partneriaid allweddol. Hefyd, mae ein Cyfarwyddwr Gwyddoniaeth, Steve Wearne, yn gymwys i gyflwyno ei hun fel ymgeisydd ar gyfer swydd Cadeirydd Codex Alimentarius yn etholiad 2020, sef corff y Cenhedloedd Unedig sy'n gosod safonau bwyd seiliedig ar wyddoniaeth i ddiogelu defnyddwyr a hwyluso arferion masnachu teg.

Yn fewnol, daeth ein rhaglen 'Ein Ffyrrd Ni o Weithio' i ben yn llwyddiannus gan roi pob aelod o'n staff ar gontactau newydd, trawsnewid ein technoleg gwybodaeth o fewn y Gweithrediadau Maes, agor safle newydd yn Birmingham, manteisio i'r eithaf ar adnoddau digidol a newid ein dull o ganfod a datblygu talent. Llwyddodd y rhaglen i ddarparu canlyniadau ariannol cryf iawn a gwella'r hyn sydd gennym i'w gynnig i bobl yn sylweddol, gan gefnogi ein polisiau reciriwtio a chadw staff.

Mae'r diwylliant o fewn yr Asiantaeth wedi parhau i newid i un sy'n edrych fwy tuag allan ac yn fwy hyderus i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Rydym ni'n fwy agored i herio yn fewnol ac yn allanol, yn fwy cynhwysol, yn canolbwytio fwy ar gyflenwi ac yn fwy effro i adnabod a gwobrwyd talent a pherfformiad. Eleni, rydym ni wedi sefydlu ein Cyngor Amrywiaeth newydd a nifer o rwydweithiau gweithgar sy'n cynnig cefnogaeth a chyfleoedd newydd i'n pobl ni.

Mae ein 'Sgyrsiau Strategol' a gynhelir ar draws yr Asiantaeth yn sicrhau bod pobl yn clywed gan gyfarwyddwyr yn bersonol beth rydym ni'n ei wneud, ac yn bwysicach na hynny, pam ein bod ni'n gwneud hynny. Mae canlyniadau ein Harolwg Pobl yn dangos bod y mentrau hyn, ac eraill, yn cael effaith gadarnhaol ac fe lwyddon ni i gael ein sgôr ymgysylltiad uchaf erioed yn Arolwg Pobl 2018.

Mae'r rhan fwyaf o'n Uwch Weision Sifil eisoes wedi'u lleoli y tu allan i Lundain ac mae hyn, ynghyd â'n system rheoli perfformiad a'n polisi gweithio hyblyg i bawb, yn gwneud i mi gredu ein bod ni ar flaen y gad o ran moderneiddio'r ffyrod yr ydym ni'n gweithredu.

Rydym ni wedi gweld sawl llwyddiant gweithredol dros y flwyddyn. Efallai mai'r mwyaf nodedig o'r rhain oedd dirwyn yr adolygiad o storfeydd oer a ffatrioedd torri i ben, a gynhalwyd ar ôl darganfod achosion o dor-cyfraith diogelwch bwyd mewn nifer o fusnesau, ac a arweiniodd at gau grŵp Russell Hume o gwmnïau. Fe wnaethom ni gydweithio'n agos â Safonau Bwyd yr Alban i gynnal yr adolygiad o ymarferion gweithio mewn storfeydd oer a ffatrioedd torri a chynnal ein cyfarfod Bwrdd cyntaf ar y cyd i gymeradwyo'r argymhellion. Rydym ni bellach yn dechrau gweithredu ar y rhain.

Parhau a wnaeth ein polisi dim goddefgarwch tuag at doriadau rheolau lles anifeiliaid a mynd ar drywydd digwyddiadau o gamdriniaeth drwy gydol y flwyddyn, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi ymhellach gyda chyflwyniad offer CCTV gorfodol fis Tachwedd y llynedd mewn lladd-dai yn Lloegr.

Gan mai hwn fydd fy adroddiad blynnyddol diwethaf cyn i mi ymddeol fel Prif Weithredwr yr ASB, hoffwn ddiolch o waelod calon i'r Cadeirydd, y Bwrdd, fy nghyd-swyddogion gweithredol ac i'n holl staff am eu cefnogaeth a'u gwaith rhagorol mewn blwyddyn eithriadol o waith.

Mae gweithio i'r ASB a phrofi ymrwymiad a phenderfyniad grŵp anhygoel o gydweithwyr pob diwrnod wedi bod yn brofiad gwerth chweil ac yn bleser o'r mwyaf.



Jason Feeney CBE

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

14 Mehefin 2019


GWEITHGAREDDAU A PHERFFORMIAD YN 2018/19

YR ASB: DOD YN RHEOLEIDDIWR GWYCH, ATEBOL A MODERN

Yn 2018/19, fe osodon ni dair blaenoriaeth hyd at 2020 i gyflawni pwrras statudol yr ASB i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Y tair blaenoriaeth a nodwyd gan Fwrdd yr ASB oedd: rhagweld, cynllunio ar gyfer a chyflawni'r canlyniadau ar gyfer Ymadael â'r UE, cynnal rhaglen i ddiwygio'r ffordd y caiff bwyd ei reoleiddio (Rheoleiddio Ein Dyfodol) a gwneud ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda.


Mae ein cynllun busnes corfforaethol, sy'n dilyn y tair egwyddor hyn, a'r nodau strategol a nodir ynddo, yn ein helpu i gyflawni ein dyhead o fod yn rheoleiddiwr gwych, atebol a modern a gwireddu ein prif flauenoriaethau.

Yn yr adran hon, rydym ni'n adrodd ar ein gweithgareddau a'n perfformiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yn erbyn y blaenoriaethau a'r canlyniadau strategol hynny, a'r galluoedd sydd ynghlwm â nhw.




RHEOLEIDDIWR GWYCH, ATEBOL A MODERN

Llwyddodd perfformiad yr ASB ym mlwyddyn ariannol 2018/19 i sicrhau cynnydd da yn erbyn y tair blaenoriaeth strategol a osodwyd gan y Bwrdd:



Ffigur 1: Cerrig milltir



AMCAN CYFFREDINOL

Rhagweld canlyniadau ymadael â'r UE, cynllunio ar eu cyfer a mynd i'r afael â nhw

YMADAEL
Â'R
UE

Amcənion cyffredinol:

Sicrhau nad yw ymadael â'r UE yn peryglu diogelwch a diliysrwydd bwyd a'n bod yn barod i ymateb mor effeithiol â phosibl i'r heriau, a'r cyfleoedd, sy'n codi o delerau terfynol y cytundeb ymadael.

Datblygu a defnyddio sylfaen dystiolaeth a fydd yn ategu'r trafodaethau yngylch ymadawriad y DU â'r UE a'n perthynas â'r UE a gwledydd eraill yn y dyfodol, ac yn dylanwadu arnynt.

Amcan ar gyfer 2018/19:

Llunio cynlluniau cyflenwi terfynol i sicrhau nad oes unrhyw fethiannau sylweddol ar y Diwrnod Cyntaf ar ôl ymadael

Datganiad:

Mae'r ASB wedi ail-flaenor iaethu adnoddau presennol i gynnal y rhaglen Ymadael â'r UE a llwyddodd i gadarnhau arian Trysorlys Ei Mawrhydi gwerth £14 miliwn yn 2018/19, a £16 miliwn pellach ar gyfer 2019/20.

Prif gerrig milltir y rhaglen, wedi'u cytuno arnynt gan Fwrdd yr ASB, yw sicrhau o fis Ebrill ymlaen, waeth beth yw'r telerau ymadael, fod gan y DU gyfundrefn reoleiddio effeithiol ar waith a'i bod yn seiliedig ar gorff o gyfraith sy'n gweithredu'n llawn. Wrth gytuno ar gynlluniau a cherig milltir, amlinellodd Bwrdd yr ASB bod gofyn i'r cynlluniau:



Ddiogelu iechyd y cyhoedd yn effeithiol



Cynnal hyder mewn safonau bwyd a'r gyfundrefn reoleiddio yn effeithiol




Lleihau amhariad ar gyfer defnyddwr a'r diwydiant


Cynnydd yn erbyn amcanion:

Rydym ni bellach wedi llwyddo i gyflawni pob un o'n hamcanion ar y rhaglen Ymadael â'r UE. Yng nghyfarfod agored y Bwrdd ym mis Mawrth 2019, fe wnaethom ni adrodd waeth beth yw canlyniadau'r trafodaethau parhaus o ran telerau ymadael y DU â'r UE, mae gennym ni hyder yn ein gallu i barhau i gynnal system diogelwch bwyd effeithiol unwaith y mae'r DU allan o'r UE.

Rydym ni wedi cyflawni hyn drwy sawl ffrwd waith gan gynnwys:



Un allawn sylweddol o'n gwaith Ymadael â'r UE ar draws polisi a gwyddoniaeth yw ein proses dadansodi risg well lle'r ydym ni'n asesu, yn rheoli ac yn cyfathrebu risgiau mewn bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'n ganolog i bopeth a wnawn a bydd yn sicrhau bod y DU yn parhau i fwynhau safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a diogelwch defnyddwyr uchel ar ôl ymadael â'r UE. Gan ddilyn arfer gorau rhwngwladol, rydym ni wedi ychwanegu manyldeb a thryloywder i'n prosesau presennol er mwyn i ni allu parhau i ddarparu cyngor diogelwch bwyd annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym ni wedi datblygu proses dadansodi risg 12 cam.



Mae ein Bwrdd wedi trafod a chytuno ar egwyddorion, mesurau llywodraethu a threfniadau sicrwydd lefel uchel sy'n sail i'r broses hon. Rydym ni wedi cynyddu ein gallu i gynnal ein gwaith dadansoddi risg ac wedi recriwtio rhagor o arbenigwyr polisi a gwyddoniaeth.

Gwahaniad clir rhwng ein gwaith asesu risg a rheoli risg	Pwyllgor cyngori newydd, y Fforwm Cyngori ar Fwyd a Bwyd Anfeiliaid (AFFF), sy'n dwyn ynghyd swyddogion ar draws y llywodraeth i ystyried materion diogelwch bwyd a bwyd anfeiliaid
Elfennau newydd rydym ni wedi'u rhoi ar waith i baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE	
Ehangu rôl ein Pwyllgorau Cyngori Gwyddonol annibynnol ar ôl i ni eu hatgyfnerthu drwy recriwtio arbenigwyr newydd a phenodi 3 cyd-weithgor arbenigol	Proses newydd yn y DU ar gyfer awdurdodi cynhyrchion wedi'u rheoleiddio fel ychwanegion bwyd a bwyd anfeiliaid, bwyd GM, a bwydydd newydd eraill

Oherwydd cymhlethdod y rhaglen Ymadael â'r UE, rydym ni wedi gorfol mabwysiadu dull ystwyth a hyblyg iawn o reoli rhaglenni a llywodraethu. Wrth i'r llifoedd gwaith symud o'r camau cynllunio, drwy'r camau dylunio manwl ac yna i'r camau gweithredu, rydym ni wedi ymateb i amgylchiadau, cyflymder a/neu flaenoriaethau yn newid. Drwy gydol y broses gynllunio a'r gweithredu, rydym ni wedi cydweithio'n agos ag adrannau eraill, yn arbennig yr Adran ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DExEU), yr Adran lechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae pob prosiect o fewn y rhaglen wedi'u gwreddu gan y meysydd busnes a fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am redeg eu gweithrediadau newydd. Rydym ni wedi achub ar y cyfle i wella rhai pethau sy'n golygu mewn rhai meysydd bod ein galluoedd newydd yn perfformio'n well na'r rheiny yn system bresennol yr UE yr ydym ni'n ffarwelio â hi. Er enghraifft, defnyddio dadansoddeg ragweladwy yn y system wyliadwriaeth newydd a thryloywder wrth ddadansoddi risg. Ar ôl Ymadael â'r UE, bydd llawer o'r meysydd busnes yn parhau i weithio i wella ein datrysiau ar gyfer y Diwrnod Cyntaf a datblygu model mwy cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r gweithgarwch hwn wedi'i ymgorffori yn ein cynlluniau busnes ar gyfer 2019/20 a chaiff ei gefnogi gan gyllid Ymadael â'r UE parhaus gan y Trysorlys.

AMCAN CYFFREDINOL

Model rheoleiddio newydd sy'n ein galluogi i ddiogelu defnyddwyr yn well o fewn y system fwyd fyd-eang sy'n esblygu'n gyflym

RHEOLEIDDIO
EIN DYFODOL

Amcanion ar gyfer 2018/19:

- Cyflenwi system ddigidol sydd wedi'i phrofi ar gyfer Cofrestru Busnesau Bwyd.
- Ail-ddylunio'r rhannau hynny o food.gov.uk ar 'ddechrau busnes bwyd' a 'rhedeg busnes bwyd', gan ei gwneud yn haws i fusnesau bwyd ddeall beth mae gofyn iddynt ei wneud.
- Adolygu'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd i adlewyrchu newidiadau sy'n codi o raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF).
- Datblygu safonau ar gyfer gweithredu Strategaethau Arolygu Prif Awdurdodau¹ a gweithio gyda phartneriaethau i gynnal treialon canfod llwybrau.
- Casglu dystiolaeth llinell sylfaen ar gynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol i lywio datblygiad model newydd.
- Datblygu'r achos busnes ar gyfer gwneud y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yn orfodol yn Lloegr.
- Cwmpasu a deall y tirlun cyflenwi presennol a phennu costau rheoleiddio a nodi dewisiadau ar gyfer model a gaiff ei ariannu'n gynaliadwy.

MODERNEIDDIO
RHEOLEIDDIO

Datganiad:

Aeth rhaglen ROF ati i flænoriaethu ffrydiau gwaith drwy ystyried:



Alinio â'r blaenoriaethau ar gyfer Ymadael â'r UE, sy'n gyson â'r yr ASB fel Awdurdod Cymwys Canolog a'r disgwyliadau ar gyfer gweithredu ffrämwaith ar ôl ymadael (dull pedair gwlad) ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd



Effaith y ffrwd waith o ran manteision i'r defnyddiwr, yr ASB a phartneriaid cyflenwi




Capasiti a gallu o fewn yr ASB i fynd â'r gwaith rhagddo a ffactorau allanol sy'n dylanwadu



Risgiau a ffactorau dibynnol

¹ Mae 'Prif Awdurdod' yn gynllun a weinyddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae'n cynnig ffodd wahanol o reoleiddio yn lleol, gan alluogi awdurdodau lleol i helpu busnesau i gydymffurfio â rheoliadau: <https://primary-authority.beis.gov.uk/about>

Cynnydd ar gyflawni blaenorïaethau cyn Ymadael â'r UE:



Cynnydd yn erbyn amcanion:

Yn y deuddeg mis diwethaf, mae'r rhaglen wedi symud o ddeall cyfyngiadau'r model cyflenwi presennol ac archwilio a phrofi dewisiadau ar gyfer gwella i gyflenwi rhai o elfennau'r model newydd. Mae ein blaenorïaeth hyd yn hyn wedi canolbwytio ar sicrhau bod dâtbygiad elfennau'r model cyflenwi newydd yn cefnogi ein paratoadau ar gyfer Ymadael â'r UE. Rydym ni wedi sicrhau'r cynnydd canlynol:



Segmentu busnesau

1. Mae'r ffocws hyd yn hyn wedi bod ar adeiladu 'peiriant risg' sy'n defnyddio set o reolau busnes i greu 'sgôr risg', sy'n segmentu busnesau yn categorïau. Bydd y categorïau hyn yn pennu natur, amlder a dwysedd rheolaethau swyddogol ar gyfer pob busnes newydd gan ddefnyddio data o'r gwasanaeth cofrestru busnesau bwyd ar-lein.
2. Mae ymgynghoriadau wedi'u cynnal ar newidiadau arfaethedig i Godau Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr ac mae newidiadau arfaethedig wrthi'n cael eu dâtbygu ymhellach i ystyried adborth gan randdeiliaid.

Cofrestru
Manylach

- 3.** Fel rhan o lwybr critigol yr Adran ar gyfer Ymadael â'r UE ar gyfer ymadael, rydym ni'n datblygu gwasanaeth ar-lein sy'n rhoi mwy o wybodaeth i ni am fusnesau bwyd wrth iddyn nhw gofrestru a fydd yn bwydo i mewn i'r Cipolwg Unedig i roi mynediad amser real at fanylion pob busnes hysbys yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- 4.** Mae system ddigidol 'Cofrestru Busnesau Bwyd' wedi'i datblygu gan ddilyn fframwaith Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth drwy'r camau darganfod ac alffa. Mae yn y cam profi 'beta byw' ar hyn o bryd.
- 5.** Mae'r system hon wedi'i mabwysiadu gan **10** awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae **220** o weithredwyr busnesau bwyd wedi defnyddio'r gwasanaeth i gofrestru eu busnesau. Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â dárparwyr systemau gwybodaeth reoli awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau i bob awdurdod lleol fabwysiadu'r system yn ystod 2019/20.
- 6.** Rydym ni wedi cynnal gwaith ymchwil i nodi sut mae busnesau newydd yn cael mynediad i'r system reoleiddio ar hyn o bryd a pha fath o gymorth maent yn ei gael ac sy'n ddefnyddiol iddynt.
- 7.** Yn sgil gwaith profi helaeth a nifer o fersiynau mae'r tudalennau gwe ar gyfer busnesau newydd ar food.gov.uk wedi'u diweddu a chawsant eu cyhoeddi ar 12 Rhagfyr. Cafodd y tudalennau hyn eu diweddu: Dechrau busnes bwyd, Gwneud cāis am gymeradwyaeth.
- 8.** Cafodd y cynnrych hyfyw lleiaf (MVP) o'r Cipolwg Unedig ei ryddhau ym mis Mawrth i is-set o ddefnyddwyr allweddol. Aeth y defnyddwyr hyn ati i brofi'r gwasanaeth drwy gydol mis Ebrill. Rydym ni wedi cydgasglu'r holl adborth ac rydym ni nawr yn blaenoriaethu ac yn gweithio drwy hwn. Byddwn ni'n datblygu fersiwn newydd o'r system yn unol â'r adborth cyn rhyddhau'r diweddariad nesaf.

Strategaethau
Arolygu
Cenedlaethol (NIS)

- 9.** Mae defnyddio Strategaethau Arolygu Cenedlaethol (NIS) y Prif Awdurdodau (PA) yn rhan allweddol o'n gwaith i gydnabod busnesau bwyd aml-safle sy'n cydymffurfio ac sy'n dryloyw. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ganolbwytio eu gweithgarwch ar y busnesau hynny sy'n peri'r fwyaf o risg i iechyd y cyhoedd. Rydym ni wedi datblygu fframwaith o safonau i sicrhau bod strategaethau NIS yn gadarn ac yn gweithredu gyda'r lefel oruchwyllo gywir.
- 10.** Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o'r safonau hyn dros yr haf ac rydym ni wedi cydweithio â phartneriaethau PA ar brosiect i brofi cysyniad NIS; i archwilio PAau sy'n cael mynediad at ddata am gydymffurfiaeth busnesau ac yn ei ddefnyddio a chanfod beth sydd angen ei wneud er mwyn i NIS ar gyfer bwyd lwyddo.

- 11.** Mae **2** bartneriaeth wedi cyflwyno cynigion ar gyfer NIS yn Lloegr a fydd yn cael eu peilota cyn cael eu ehangu i gynnwys rhagor o bartneriaethau.
- 12.** Rydym ni'n gweithio i ddatblygu dewisiadau i gynnal cynaliadwyedd a hygrededd gweithrediad y CSHB. Mae hyn yn rhywbeth y bydd gweithredu NIS yn effeithio arno.
- 13.** Rydym ni wedi astudio'r tirlun cyflenwi presennol, sefydlu costau rheoleiddio, cytuno ar egwyddorion ar gyfer creu model y gellir ei ariannu yn gynaliadwy, ystyried modelau cyllido rheoleiddwyr eraill ac arfarnu dewisiadau possibl.

Rydym ni'n cymryd dull system gyfan, gan geisio deall pa wybodaeth sydd ar gael o amrywiaeth ehangach o ffynonellau a sut y gellir defnyddio hyn yn y dyfodol i ennill sicrwydd fod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Mae gan unrhyw arloesi, mentrau a thechnoleg newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg y potensial i gynnig amrywiaeth o ddata a allai gefnogi model gweithredu'r dyfodol, felly rydym ni wedi parhau i gynnal astudiaethau dichonolrwydd i ddeall yn well y systemau sicrwydd sydd gan fusnesau i gefnogi rheoleiddio.

Mae achos busnes pum piler wedi'i ddatblygu ar gyfer rhaglen ROF. Mae'n disgrifio'r cyfiawnhad busnes ar gyfer ROF, ac yn amlinellu'r manteision a'r canlyniadau disgwylledig, yn amcangyfrif yr effaith economaidd ac yn amlinellu'r costau llawn. Mae'r achos busnes yn cael ei ddatblygu wrth i ni fynd rhagddo a byddwn yn ail-ymweld â'r achos ac yn ei ddiweddar ar ôl cwblhau cam cyntaf y rhaglen sy'n canolbwytio ar flaenoriaethau cyn Ymadael â'r UE.

Camau nesaf

Rydym ni'n parhau yn ymrwymedig i gyflawni ein dyhead i gyflwyno model cyllido newydd i gefnogi'r system reoleiddio wedi'i moderneiddio yr ydym ni wrthi yn ei chreu, un sy'n seiliedig ar fusnesau yn talu'r costau. Rydym ni'n cydnabod y bydd cryn dipyn o amser cyn i ni allu gweithredu unrhyw newid ac mae gofyn i ni fod yn realistig am hynny. Byddwn ni'n ystyried sut y gallwn ni fynd ar drywydd ein dyhead fel rhan o'n gwaith i ddatblygu strategaeth yr ASB o 2020.

AMCAN CYFFREDINOL

Wrth reoli'r newid sydd ar droed, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y peiriant rheoleiddio yn gweithredu'n llyfn

CYFLAWN I EIN
GWAITH
O DDYDD I DDYDD
YN EITHRIADOL O
DDA

Amcanion cyffredinol:

Rhan o ddyletswydd rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern yw sicrhau effaith fawr gydag ychydig o adnoddau: ceisio cyflawni'r gwaith o ddydd i ddydd yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, diogelu defnyddwyr, a dangos ein bod yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

Datganiad:

Er mwyn parhau i gyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd yn eithriadol o dda, bydd angen i'r ASB ganolbwytio ar berfformiad – cyflawni cyfrifoldebau'r ASB, a datblygu, hybu a gwireddu ei gallu.

Perfformiad:

I gyflawni ei huchelgais o fod yn rheoleiddiwr rhagorol a modern, mae'r ASB wedi:

Cytuno ar dargedau perfformiad yn y Pwyllgor Busnes sydd wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau chwarterol ar berfformiad ac adnoddau

Mae'r rhain yn destun datblygiad ac adolygiad parhaus a byddant yn parhau i gael eu hasesu i sicrhau eu bod yn alinio â'r strategaeth a'i blaenorïaethau

Lle mae gan yr ASB reolaeth lawn dros berfformiad, cytunir ar 'dargedau'

Mae'r ASB wedi gosod 'dyhead' o ran chwarae'r rôl arweiniol gyda rhanddeiliaid (y diwydiant a defnyddwyr), yn adlewyrchu na all yr ASB reoli'r canlyniadau hyn yn llawn

Cytunodd Pwyllgor Busnes yr ASB ar y set gyntaf o ddyheadau a thargedau ym mis Mehefin 2018

Mae trafodaethau parhaus wedi'u cynnal ar fesurau ychwanegol drwy gydol 2018/19

Mae pob adroddiad perfformiad ac adnoddau ar gael ar-lein, lle cyflwynir diweddaradau a chynnydd yn erbyn y mesurau hyn

I fod yn rheoleiddiwr gwych, atebol a modern sy'n cyflawni diben statudol yr Asiantaeth Safonau Bwyd o ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, fe wnaethom ni osod tair blaenoriaeth:

- CASGLU A DEFNYDDIO GWYDDONIAETH TYSTIOLAETH A GWYBODAETH**

Datblygu gallu gwyddonol i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar gyngor gwyddonol cadarn a chyfredol
- RHEOLEIDDIO EIN DYFODOL**

Ail-ddylunio'r tirlun rheoleiddio drwy ein rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, i sicrhau y caiff y broses o reoleiddio diogelwch bwyd yn y DU ei moderneiddio a'i bod yn seiliedig ar risg, yn cael ei gyrru gan ddata a'i bod yn addas at ei diben
- SICRHAU BOD GENNYM NI DDULL CENEDLAETHOL A CHYDGYSYLTIEDIG SY'N GOST-EFFEITHIOL AR GYFER MYND I'R AFAEL Â THROSEDDAU BWYD DRWY DDATBLYGU'R UNED GENEDLAETHOL TROSSEDDAU BWYD**

Sicrhau bod gennym ni ddull cenedlaethol a chydgyssylltiedig sy'n gost-effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â throseddau bwyd drwy ddatblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd
- MAE BWYD YN CYD-FYND Â'R HYN SYDD AR Y LABEL**

Dod yn arweinydd byd-eang ar reoleiddio diogelwch bwyd, drwy gydweithio a rhannu gwybodaeth â sefydliadau tebyg eraill ar draws y byd
- GWELL DEALLTWRIAETH O YMDDYGIADAU DEFNYDDWYR A BUSNESAU ER MWYN I NI ALLU GRYMUSO DEFNYDDWYR, A DEFNYDDIO AMRYWIAETH O ADNODDAU DEDDFWRIAETHOL AC ANEDDFWRIAETHOL I SICRHAU GWELL CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR**

Gwell dealltwriaeth o ymddygiadau defnyddwyr a busnesau er mwyn i ni allu grymuso defnyddwyr, a defnyddio amrywiaeth o adnoddau deddfwriaethol ac aneddfwriaethol i sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr




Mae meysydd a llweddol ein perfformiad wedi'u nodi yn y tudalennau a ganlyn:

SALWCH A GLUDIR GAN FWYD




Cyfrifoldeb pobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yw sicrhau ei fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Amcangyfrifir yr effeithir ar tua miliwn o bobl gan salwch a gludir gan fwyd yn y DU bob blwyddyn, gan gostio mwy na £1 biliwn i'r economi. Isod, dangosir yr achosion mewn pobl a gadarnhawyd mewn labordy yn y DU o 2000 i 2018 o'r pedwar prif bathogen bacteriol. Dim ond lleiafrif o achosion a adroddir lle gaiff samplau eu hanfon i'w dadansoddi mewn labordy.


Campylobacter




Escherichia coli O157



Salmonela



Listeria monocytogenes



Ffynhonnell: lechyd Cyhoeddus Cymru, lechyd Cyhoeddus Lloegr, Diogelu lechyd yr Alban ac Asiantaeth lechyd y Cyhoedd Gogledd Iwerddon.

Dyma pam mae'r ASB yn bodoli, i ddiogelu'r cyhoedd rhag salwch a gludir gan fwyd. Mae ein holl fesurau yn cyfrannu at gyflawni'r ystadegau 4ydd Chwarter hyn, a gaiff eu hychwanegu bob mis Mawrth.


Mae ychydig o amrywiaeth blynnyddol o ran amlder salwch a gludir gan fwyd i'w ddisgwyl, ac nid yw'n fater i bryderu amdano o reidrwydd. Oherwydd yr amrywiad disgwyliedig hwn, mae Bwrdd yr ASB yn gosod lefelau Sylfaen sy'n gweithredu fel y trothwyon ar gyfer gweithredu. Mae'r cynnydd mewn salwch a gludir gan fwyd yn 2018 yn is na'r trothwyon presennol ar gyfer pob un o'r pedwar pathogen.

Fodd bynnag, gan fod cynnydd wedi'i weld ym mhob un o'r pedwar pathogen, bydd yr ASB yn cynnal gwaith pellach mewn partneriaeth â chwe chorff gwyliadwriaeth cenedlaethol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau ein bod wedi archwilio'r data sydd ar gael yn llawn i ddeall

unrhyw broblemau sylfaenol. Caiff camau pellach eu cymryd fel sy'n briodol, gan gynnwys comisiynu gwaith ymchwil pellach os oes angen.


Arolwg manwerthu a menter rhannu data agored:

Caiff lefel yr halogiad Campylobacter ar groen cyw iâr ei fesur o ran nifer yr uned ffurfio cyrtref (*colony forming units*) fesul gram o groen (cfu/g). Mae prif ffocws ein sylw ar lefelau uchel o Campylobacter – yn bennaf y rheiny dros 1,000cfu/g.



Yn dilyn trafodaethau â'r diwydiant ar fenter yr ASB, cytunodd y naw prif fanwerthwr i gyhoeddi eu canlyniadau Campylobacter eu hunain ar eu gwefannau cyhoeddus o 21 Medi 2017. Mae'r gwaith samplu a dadansoddi a gynhelir gan y manwerthwyr yn dilyn protocolau cadarn a sefydlwyd gan yr ASB. O ganlyniad i'r trefniant hwn, nid yw'r naw prif fanwerthwr bellach wedi'u cynnwys yn ein harolwg manwerthu blynnyddol, ond mae defnyddwyr yn dal i allu dilyn ymrwymiad parhaus y manwerthwyr i leihau Campylobacter. Isod mae graff o gyhoeddiadau'r manwerthwyr hyd yn hyn:

% senglau croen cyw iâr >1000 cfu/g Campylobacter




Mae'r ffigyrâu diweddaraf yn dangos ar gyfartaledd, ar draws y prif fanwerthwyr, bod **3.1%** o'r cyw iâr wedi profi'n positif ar y lefel halogj uchaf ar gyfer chwarter 4 (Hydref-Rhagfyr 2018). Dyma'r cyw

iâr sy'n cario mwy na 1,000 o unedau ffurffio cyrtref fesul gram (cfu/g) o Campylobacter. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer y set flaenorol o ganlyniadau oedd **3.5%** (Gorffennaf-Medi 2018) a **3.7%** (Ebrill-Mehefin 2018), a'r tro cyntaf iddynt gyhoeddi'r ffigyrâu (Gorffennaf-Medi 2017) **4.6%** oedd y ffigwr hwn. Mae hyn yn dangos fod lefelau Campylobacter yn parhau i fod yn gyson mewn cyw iâr cyfan, wedi'i oeri a gynhyrchir yn y DU ac a werthir gan fanwerthwyr mawr, yn ôl eu ffigyrâu nhw eu hunain.

Mae'r ffigyrâu diweddaraf yn dangos bod cynnydd pellach yn cael ei wneud yn ein hymdrehchion i leihau Campylobacter mewn cyw iâr cyfan ffres a gynhyrchir yn y DU.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y canlyniadau calonogol hyn, gan weithio'n agos â phrif fanwerthwyr a busnesau dofedorol llai i ddod â lefelau lawr mor isel ag sy'n ymarferol bosibl. Mae lefelau canran cyfartalog cyffredinol Campylobacter o fewn data'r manwerthwyr i'w gweld yn y graff isod:

Lefelau % o Campylobacter ar gyfartaledd o fewn data'r manwerthwyr



Er y daeth y rhaglen Campylobacter i ben ddiwedd mis Mawrth 2017, mae'r ASB yn dal i gynnal yr arolwg manwerthu.

Y strategaeth nawr yw canolbwytio ein hymdrehchion ar sefydliadau llai lle ystyrir bod modd gwneud gwelliannau pellach. Bydd cynyddu'r ffocws ar y cyflenwyr hyn yn golygu bod modd ymestyn y gwelliannau a gyflawnir gan y cadwyañ manwerthu mwy ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan. Felly, bydd ffocws yr arolwg manwerthu ar fanwerthwyr bychain, masnachwyr annibynnol a stondinâu marchnad gan fod y rhain yn fwy tebygol o gael eu cyflenwi gan broseswyr llai. Er bod y busnesu hyn yn cyfrif am gyfran fechan iawn o'r farchnad, mae llawer ohonynt yn cyflenwi cynhyrchion i'r sector arlwyo a manwerthwyr lleol.


Rydym ni hefyd yn cyflwyno cynllun profi gallu Campylobacter, gyda'r nod o bennu gallu labordai bwyd i gynnal profion canfod a chyfrifo Campylobacter. Mae'r labordai hyn yn cynnal profion o'r fath ar ran manwerthwyr a phroseswyr. Rydym ni dal yn ymroi i leihau lefelau Campylobacter ar yr holl gyw iâr a gynhyrchir yn y DU a byddwn yn parhau i weithio gyda manwerthwyr mawr i gyhoeddi data agored i sicrhau bod yr ymrwymiad i leihau Campylobacter yn parhau.

CYDYMFFURFIAETH GWEITHREDWYR BUSNESAU BWYD CIG Â RHEOLIADAU


MAE BWYD
YN CYD-FYND
Â'R HYN SYDD
AR Y LABEL

Cyfrifoldeb Gweithredwyr Busnesau Bwyd Cig yw Cydymffurfio â rheoliadau diogelwch bwyd, hylendid bwyd a lles anifeiliaid. Fel rhan o'r system o reolaethau swyddogol, mae'r ASB yn cynnal archwiliadau o fusnesau bwyd i wirio cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd i weld lle mae angen gwella. Caiff canlyniadau archwiliadau o fusnesau bwyd eu categoriiddio yn ôl lefelau cydymffurfio fel - **'Da'**, **'Boddhaol ar y cyfan'**, **'Angen gwella'** ac **'Angen gwella ar frys'**.


Nifer y gweithredwyr yn Lloegr wedi'u sgorio fel **'Da'** neu **'Foddhaol ar y cyfan'**




Nifer y gweithredwyr yn Lloegr wedi'u sgorio fel **'Angen gwella'** neu **'Angen gwella ar frys'**




Nifer y gweithredwyr yng Nghymru wedi'u sgorio fel **'Da'** neu **'Foddhaol ar y cyfan'**



Nifer y gweithredwyr yng Nghymru wedi'u sgorio fel **'Angen gwella'** neu **'Angen gwella ar frys'**




*Nid oedd unrhyw weithredwyr yng Nghymru wedi'u sgorio **'Angen gwella'** neu **'Angen gwella ar frys'** rhwng mis Ebrill 2018 a mis Hydref 2018.



Nid oedd unrhyw weithredwyr wedi'u sgorio fel '**'Angen gwella'** neu '**'Angen gwella ar frys'** yng Ngogledd Iwerddon.

Fel rhan o ymrwymiad yr ASB i annog busnesau bwyd i gymryd eu cyfrifoldebau dros gynhyrchu bwyd mwy diogel fwy o ddifrif, rydym ni wedi gosod uchelgais i leihau cyfanswm nifer y sefydliadau a gaiff eu harchwilio sy'n cael sgôr 'angen gwella' neu 'angen gwella ar frys' o 25%.

Cynnydd tuag at yr uchelgais yn y flwyddyn gyntaf



LLES ANIFEILIAID

Caiff y rhaglen ‘**Rhwystro, Atal, Canfod, Gorfodi**’ ei chynnal drwy’r Cynllun Gweithredu ar Les Anifeiliaid. Mae gennym ni agwedd dim goddefgarwch tuag at unrhyw un nad ydynt yn cydymffurfio â rheolau lles anifeiliaid. Mae pob achos yn arwain at gamau gweithredu priodol.

Yn 2018/19, roedd yr ASB wedi ymrwymo i gynnal gweithgarwch y cytunwyd arno yn y Cynllun Gweithredu ar Les Anifeiliaid. Cafodd y gweithgareddau hyn eu nodi ym Mhapur i'r Bwrdd¹ yn 2017, a gafodd ei ddiweddar yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu blaenorïaethau newydd. I grynhai mae gennym ni:



System gryfach i wirio cydymffurfiaeth drwy:

- Weithio gyda Defra a'r diwydiant i weithredu CCTV gorfodol mewn lladd-dai yn Lloegr.
- Cwblhau ein hail archwiliad ar thema lles anifeiliaid.
- Cwblhau pob adolygiad o safleoedd gyda golwg cyfyngedig o'r broses ladd; systemau cludo gyda ffrwynwr (restrainer) V; blychau ffrwyno gwartheg; gweithrediadau heb stynio a'r rheiny sy'n adrodd nifer isel o achosion o ddiffyg cydymffurfio.
- Sefydlu tudalen we arbennig ar food.gov.uk i gyhoeddi data a chanllawiau ar les anifeiliaid.



Gwell atebolwyrdd a chydweithio drwy:

- Gydweithio â'r diwydiant ar ganllawiau, dal a chludo ar gyfer y diwydiant dofednod.
- Ein rhaglen o ymweliadau gan Dîm Sicrhau Lles arbennig yr ASB.
- Sefydlu safonau gwasanaeth ar gyfer ansawdd ac amlder adborth gan randdeiliaid eraill sy'n ymneud â digwyddiadau lles ar y fferm ac wrth gludo anifeiliaid.
- Negodi'n llwyddiannus â Defra a Llywodraeth Cymru i sicrhau cynnydd mewn cyllid ar gyfer cynnal rheolaethau ar les anifeiliaid.



Gwella addysg ac ymwybyddiaeth drwy:

- Gydweithio â Defra i ddatblygu'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth CCTV.
- Cyhoeddi dogfen o Gwestiynau Cyffredin i wella'r canllawiau CCTV.
- Cyhoeddi canllawiau arfer gorau gyda thema.



Gwella ansawdd ein hadrodd ar ddadansoddi drwy:

- Gynhyrchu ystadegau misol ar achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r system gorfodi ac adrodd ar les anifeiliaid a chyhoeddi'r canlyniadau yn chwarterol.
- Cwblhau Arolwg 2018 yr ASB ar Ddulliau Lladd yng Nghymru a Lloegr ar ran Defra a Llywodraeth Cymru.

¹ www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa170905%20%281%29.pdf

Y CYNLLUN SGORIO HYLENDID BWYD

MAE BWYD
YN CYD-FYND
Â'R HYN SYDD
AR Y LABEL

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yn darparu gwybodaeth am safonau hylendid bwyd mewn busnesau bwyd adeg yr arolygiadau rheolaidd gan awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn berthnasol i fusnesau sy'n darparu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, fel bwyta, tafarndai, caffis, siopau tecawé, ysbytai, cartrefi gofal, gwestai, archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill. Yng Nghymru, mae masnachwyr busnes i fusnes hefyd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae'r cynllun yn darparu tryloywder ynghylch safonau hylendid adeg yr arolygiad gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl wneud dewisiadau gwybodus wrth fwyta allan neu brynu bwyd. Mae rhoi grym i ddefnyddwyr fel hyn yn cymell busnesau i wella eu safonau hylendid. Mae gwaith dadansoddi gan yr ASB² wedi dangu bod cysylltiad rhwng sgoriau uchel â lefelau is o ficrobau mewn busnesau bwyd. Yn y pen draw felly, mae hyn yn lleihau risg o salwch a gludir gan fwyd pan fydd defnyddwyr yn bwyta mewn safleoedd â sgôr uwch. Mae'r CSHB yn gweithredu mewn partneriaeth â holl awdurdodau lleol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cynnal yr arolygiadau i ddyfarnu'r sgoriau. Mae'r sgoriau yn amrywio o 0 (Da iawn) i 5 (Angen gwella ar frys).



Mae busnesau bwyd yn cael sticer sgôr i'w arddangos ar y safle, mewn man lle mae'n hawdd i ddefnyddwyr weld y sticer. Mae'n orfodol yn ôl y gyfraith i arddangos y sticer yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac mae arddangos y sticer yn wirfoddol yn Lloegr.

Ar **31 Mawrth 2019** roedd sgoriau hylendid bwyd wedi'u cyhoeddi ar gyfer **434,124** o sefydliadau bwyd ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:

Gog. Iwerddon
98.9% o fusnesau yn cael sgôr o 3 neu uwch

Cymru
95.7% o fusnesau yn cael sgôr o 3 neu uwch

Lloegr
95.0% o fusnesau yn cael sgôr o 3 neu uwch

CSHB Cyfunol
96.5%

Gog. Iwerddon
77.9% o fusnesau yn cael sgôr o 5 – da iawn

Cymru
67.6% o fusnesau yn cael sgôr o 5 – da iawn


Lloegr
70.1% o fusnesau yn cael sgôr o 5 – da iawn

CSHB Cyfunol
71.8%


² www.food.gov.uk/research/research-projects/evidence-of-relationship-between-food-business-hygiene-compliance-and-measures-of-food-safety

Mae'r graffiau isod yn dangos % y sgoriau CSHB cyffredinol wedi'u dosbarthu yn ôl gwlad ar 31 Mawrth 2019:


Lloegr




Gogledd Iwerddon



Cymru



Cyfanswm



Mae arolwg tracio'r CSHB yn rhoi dârlun cyffredinol o ymwybyddiaeth defnyddwyr, eu hagweddau tuag at y Cynllun a'u defnydd ohono yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Defnyddwyr yn adnabod sticeri CSHB

86%

Roedd 86% wedi gweld busnes bwyd yn arddangos ei sgôr yn y 12 mis diwethaf (o'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'r cynllun sgorio)



Gog. Iwerddon 96%




Cymru 93%



Lloegr 85%


Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n cofio gweld sticer CSHB yn sylweddol uwch yng Nghymru a Gogledd Iwerddon

Safbwytiau ar arddangos gorfodol




o'r holl ymatebwyr o'r farn y dylai busnesau bwyd orfod arddangos eu sticeri.

Roedd y cyfran yn uwch yng Ngogledd Iwerddon (93%) na Chymru (87%) a Lloegr (85%)



*Cyflwynwyd arddangos gorfodol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac yng Ngogledd Iwerddon ym mis Hydref 2016

Mae'r graff isod yn dangos newidiadau o ran adnabod sticeri CSHB dros amser, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.



Mae arddangos gorfodol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon wedi adeiladu ar effaith gadarnhaol y CSHB gwirfoddol, gyda nifer y busnesau yng Nghymru sydd a sgôr o 5 yn cynyddu 23 pwynt canran ers cyflwyno arddangos gorfodol yn 2013. Mae'r ASB yn parhau i ymrwymo i gael CSHB statudol yn Lloegr, gan y byddai hyn yn beth cadarnhaol i ddefnyddwyr, ac i fusnesau sy'n cyflawni safonau uchel. Byddai hefyd yn ffordd arall o ysgogi busnesau sydd â safonau is i wella.

Nododd archwiliad o fusnesau ym mis Medi 2018 fod 52% o safleoedd yn Lloegr yn arddangos eu sgôr o dan y cynllun gwirfoddol, o'i gymharu ag 87% yng Nghymru ac 84% yng Ngogledd Iwerddon, o dan y cynlluniau gorfodol. Mae hyn o'i gymharu â 21% yng Nghymru, 32% yn Lloegr, a 38% yng Ngogledd Iwerddon yn 2011/12 ar ôl cyflwyno'r cynllun gwirfoddol am y tro cyntaf.

DIGWYDDIADAU BWYD



Un o hawliau sylfaenol defnyddwyr yw'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am y bwyd y maent yn dewis ei brynu a'i fwyt. Mae ond yn bosibl iddynt wneud hynny os yw bwyd yn cael ei nodi'n gywir a'i labelu'n briodol.


Mae'r ASB yn chwarae rôl arweiniol bwysig i sicrhau bod pobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau; hynny yw, yn sicrhau ei fod yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. O dan Erthygl 19 o

Reoliad Ewropeaidd 178/2002, mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd roi gwybod i'r awdurdodau cymwys os oes ganddynt le i gredu nad yw bwyd a fewnforiwyd, a gynhyrchwyd neu a ddosbarthwyd ganddynt yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd. Rydym ni'n cyfeirio at hysbysiadau o'r fath, ac yn ymdrin â nhw, fel 'digwyddiadau'.

Yr ASB a'r awdurdodau gorfodi (awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd) yw'r awdurdodau cymwys yn y DU. Gall y Comisiwn Ewropeaidd a'r Aelod-wladwriaethau hefyd rannu gwybodaeth am ddiogelwch bwyd â'i gilydd gan ddefnyddio'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF).

Caiff digwyddiad ei ddiffinio gan yr ASB fel: 'Unrhyw ddigwyddiad lle ceir pryderon, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ynghylch bygythiad gwirioneddol neu fygythiad a amheur i ansawdd neu uniondeb bwyd a bwyd anifeiliaid lle gall fod angen ymyrryd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.'

Ar y cyfan, cafodd yr ASB wybod am, ac fe ymchwiliodd i, **2,321** o ddigwyddiadau halogi bwyd, bwyd anifeiliaid a'r amgylchedd yn y DU yn 2018/19. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o **0.21%** mewn hysbysiadau o'i gymharu â 2017/18.




Gall llawer o ffactorau effeithio ar nifer y digwyddiadau a rhybuddion a gofnodir bob blwyddyn, gan gynnwys tueddiadau defnyddwyr newydd, datblygiadau technolegol, newidiadau deddfwriaethol, nifer y profion a gynhelir, a'r tywydd hyd yn oed. O'r herwydd, dim ond mesur o nifer y digwyddiadau a rhybuddion y mae'r ASB wedi cael gwybod amdano nt yw nifer yr hysbysiadau sydd wedi dod i law. Rydym ni'n parhau i ymateb i'r newidiadau hyn mewn niferoedd trwy adolygu capaciti a gallu yn bárhaus, yn enwedig wrth i ni baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE.

Gwelwyd cynnydd o **36.7%** mewn Rhybuddion Alergedd a Hysbysiadau Galw Cynnyrch yn Ôl a gyhoeddwyd gan yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon dros yr un cyfnod.


Mae'n debyg nad yw'r cynnydd yn nifer y rhybuddion yn 2018/19 o'i gymharu â 2017/18 yn arwydd o newid ym mhroffil diogelwch bwyd y DU, ond yn hytrach yn adlewyrchu'r cynnydd diweddar mewn proffil ac adrodd am risgiau sy'n gysylltiedig ag alergenau.

Mae'r graffiau a ganlyn yn dangos y duedd data dros y blynyddoedd adrodd dan sylw:

Hysbysiadau a ddaeth i law



Rhybuddion a gyhoeddwyd




Nid yw Ymadael â'r UE yn newid ein blaenoriaeth o ran sicrhau bod bwyd y DU yn parhau i fod yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Rydym ni wedi ymrwymo i sefydlu system gadarn i ganfod ac ymateb i broblemau yn y gadwyn fwyd. Waeth beth yw'r amodau ymadael, bydd gan yr ASB y gallu i ganfod ac ymateb yn effeithiol i unrhyw ddigwyddiad diogelwch bwyd a allai effeithio ar y DU. Ar hyn o bryd, rydym ni'n parhau â'n prosesau presennol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau gyda darpariaethau cyfredol ar gyfer asesu risg a rhoi cyngor rheoli risg yn ystod digwyddiadau. Rydym ni hefyd yn datblygu ein gweithdrefnau o ran ymdrin â digwyddiadau a gweithdrefnau cyfathrebu i ddiwallu anghenion ymhellach. Bydd hyn yn rhoi i ni'r gallu sydd ei angen i ymateb i ddigwyddiadau ar ôl Ymadael â'r UE. Mae'r cynllun isod sy'n dangos y Prosesau Rheoli Digwyddiad ar ôl Ymadael â'r UE yn amlinellu'r gwelliannau hyn:

YMDRIN AC YMATEB I DDIGWYDDIAD BWYD A BWYD ANIFEILIAID



Mae'r llif gwaith hwn yn dangos un o'r ffyrdd y bydd yr ASB yn mynd ati i sicrhau bod safon uchel diogelwch bwyd a diogelwch defnyddwyr yn y DU yn parhau pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.



Allwedd

- Wedi'i gyflwyno yn 2018/19
- Proses barhaus
- Ffynhonnell data a rhannu data

Gweithgarwch allweddol cyn Mawrth 2019:

- Recriwtio a hyfforddi tim newydd
- Mireinio systemau newydd
- Gweithredu system newydd

Ffynonellau Data a Rhannu Data:

- Rydym ni'n ymgysylltu â'r diwydiant, awdurdodau gorodi a rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses.
- Rydym ni'n rhybuddio gwledydd eraill, yn cyfnewid gwybodaeth gyda Rhwydwaith Rhyngwladol yr Awdurdodau Diogelwch Bwyd (INFOSAN) ac eraill



Mae rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau bwyd ar gael drwy: www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-18-09-06-incidents-and-resilience-report.pdf

YR UNED GENEDLAETHOL TROSEDDAU BWYD (NFCU)



Ym mis Mai 2018, sicrhawyd cyllid i alluogi'r NFCU i symud o Gam 1 i Gam 2 ei ddatblygiad. Roedd cam 1 yn cynnwys **22 aelod staff cyfwerth ag amser llawn (FTE)** yn cyflawni swyddogaethau uned gwybodaeth (*intelligence*) troseddol sy'n canolbwytio ar gasglu, datblygu a dadansoddi gwybodaeth cyn lledaenu'r wybodaeth uwch i lywio a dechrau gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol. Mae cam 2 yn galluogi cynnydd i **82 FTE** sy'n caniatáu ehangu galluoedd gwybodaeth droseddol weithredol

yn ogystal â darparu ymateb sy'n seiliedig ar Ddilyn, Paratoi, Diogelu ac Atal i'r bygythiadau a berir gan droseddau bwyd.

Mae'r galluoedd NFCU estynedig hyn yn cael eu datblygu fesul cam trwy ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus a chyflwyno hyfforddiant perthnasol gyda'r nod o ddarparu Uned sy'n gweithredu'n llawn erbyn 1 Ebrill 2020. Ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd gan yr NFCU **67 FTE** a'r targed yw **82 FTE**. Wrth adeiladu gallu, mae'r NFCU hefyd yn arwain ar rai ymchwiliadau twyll sylweddol ac yn parhau i gefnogi partneriaid gydag ymchwiliadau eraill i droseddau bwyd.

Mae'r NFCU yn parhau i chwarae'r rôl arwain allweddol yn rhngwladol wrth ddatblygu ymateb i droseddau bwyd yn yr UE a thu hwnt. Mae gan yr Uned rôl ddylanwadol o fewn mentrau gwrt-dwyll yr UE. Ym mis Hydref 2018, sefydlodd yr Uned y Gynghrair Fyd-eang ar Droseddau Bwyd i feithrin gallu a dealltwriaeth mewn trydydd gwledydd.

Rhagwelir mai tua **£4 miliwn** fydd cost net gweithrediadau NFCU ar gyfer 2018/19 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon; cyfanswm buddsoddiad yn yr NFCU ers 2015 fydd **£6.5 miliwn**.

Cyflawniadau'r NFCU yn 2018/19:

Ymchwiliad twyll troseddol cyntaf yr Uned, ymchwiliad effeithiol a pharhaus fel rhan o ymateb ehangach yr Asiantaeth i bryderon difrifol a nodwyd mewn nifer bach o ffatrioedd prosesu cig

Lledaenu dros **550** o logiau gwybodaeth i asiantaethau eraill sy'n gorfol i'r gyfraith a phartneriaid awdurdodau lleol

Derbyn a gwerthuso mwy na **5,000** o ddarnau unigol o wybodaeth drwy ei fecanweithiau adrodd cyhoeddus, a mecanweithiau'r diwydiant

Cyflawni'n llwyddiannus o ran cyfraniad y DU i'r Fenter Ryngwladol Flynyddol, Ymgyrch OPSON, gyda chydweithwyr o Safonau Bwyd yr Alban a gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd

Cyfres o ymyriadau a chanlyniadau ystyrlon i leihau bygythiad DNP i ddefnyddwyr, gan gynnwys cael gwared ar lwybrau gwerthu ar-lein. Ymgysylltu â phartneriaid tramor a dau erlyniad llwyddiannus gan awdurdodau lleol

Gwella sefyllfa'r uned yn rhngwladol fel arweinydd agweddau trwy sefydlu a chadeirio Cynghrair Byd-eang ar Droseddau Bwyd



Yn 2018/19, roedd allawn gwybodaeth gweithredol yr Uned yn parhau i gael ei ddominyddu gan ymdrechion i fynd i'r afael â gwerthiant anghyfreithlon o'r cyffur 'llosgi braster' honedig 2,4 dinitrophenol (DNP) i'w gymryd gan bobl.



Arweiniodd gwybodaeth yr NFCU at nodi, arrestio a chyhuiddo Bernard Rebello o ddynladdiad ym mis Mehefin 2018.



Yn ystod Gweithrediad Albany, arweiniodd gwybodaeth yr NFCU at ymchwiliad ar y cyd rhwng yr Uned, tri awdurdod lleol a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, gan arwain at atafael **15kg** o DNP yn ogystal â pheiriannau gwasgu a chymysgu. Plediodd y prif berson a ddrwgdybir yn euog ar 28 Medi 2018 a chafodd ei ddedfrydu ym mis Chwefror i 9 mis o garchar (wedi'i wahardd am 12 mis) a'r cwmni yn cael dirwy o **£100,000**.



Arweiniodd gwybodaeth yr NFCU a ddosbarthwyd i Heddlu Cenedlaethol Wcrain at arrestio unigolyn yr amheur ei fod wedi gwerthu DNP i'r fenyw Brydeinig Bethany Shipsey a fu farw yn 2017 ar ôl cymryd DNP. Fe arweiniodd ymchwiliad gan yr Wcrain at adfer deunydd yr amheur ei fod yn ddefnyddiol wrth gynhyrchu steroidau anabolig a Chyffuriau Dosbarth A.



Dechreuwyd gweithrediad 'cymryd i lawr' (*take-down*) yn erbyn **39** gwefan, **116** rhestrau gwerthu ar farchnadoedd ar-lein a **9** cyfrif cyfryngau cymdeithasu, i gyd wedi'u nodi i fod yn hysbysebu gwerthu DNP fel atchwanegiadau.



Arweiniodd ymgysylltu trwy Lysgenhadaeth Prydain yn Beijing â phorth gwe o Tseina at ddileu cannoedd o safleoedd eraill a oedd yn gwerthu DNP i'w gymryd gan bobl. Rhagwelir y bydd yr ymgysylltu â Llywodraeth Tseina yn arwain at reolaethau cryfach o ran cynhyrchu ac allforio DNP



Rhannwyd **24** o adroddiadau gwybodaeth â phartneriaid drwmor yn nodi gwerthwyr DNP yn eu hawdurdodaeth nhw. Arweiniodd gweithrediad diweddar yng Ngwlad Pwyl at arrestio **2** berson ac atafael swm o DNP.



Cychwynnwyd gweithgarwch diogelu rhagweithiol hanfodol gan yr NFCU gydag awdurdodau yng Nghanada, Awstralia, Seland Newydd, yr Eidal, Sweden, Romania, Iwerddon a'r Ffindir mewn perthynas â phobl yn defnyddio DNP a nodwyd yn yr awdurdodaethau hynny, gan arwain at wyliadwriaeth ychwanegol ar y ffin yng Nghanada a'r Ffindir.

MAETH (GOGLEDD IWERDDON)




Cyfrifoldeb yr ASB yng Ngogledd Iwerddon yw cyflwyno polisi maeth ac iechyd deietegol. Nod cyffredinol y polisi iechyd deietegol yw gwella canlyniadau maeth ac iechyd i ddefnyddwyr trwy sicrhau bod cynhyrchion bwyd iachach ar gael a chynyddu dealltwriaeth defnyddwyr o faeth, er mwyn caniatáu i'r dewis iach fod yn ddewis hawdd. Prif rôl yr ASB yw datblygu ac arwain polisiau sy'n canolbwytio ar bob sector o'r diwydiant bwyd a'r sefydliadau sy'n dylanwadu arnynt ac yn eu cefnogi.


Mae data gwyliadwriaeth maeth yn dangos bod deiet Gogledd Iwerddon yn cynnwys gormod o halen, braster dirlawn a siwgr a dim digon o ffrwythau, llysiau na chynhyrchion grawn cyflawn.

CYMERIANT DEIETEGOL GOGLEDD IWERDDON

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym ni'n bwyta gormod o:



A dim digon o:



Mae cyffredinolrwydd gorbwysau a gordewdra ymmsg pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon dros y 10 mlynedd diwethaf yn fater o bryder. Yn ôl yr Arolwg Iechyd diweddaraf ar gyfer Gogledd Iwerddon (2017/18), roedd bron i ddwy ran o dair o oedolion, **64%**, dros bwysau neu'n ordew. Roedd tua **27%** o blant rhwng 2-15 mlwydd oed yn cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew.

CYMERIANT DEIETEGOL GOGLEDD IWERDDON

Mae 6 o bob 10 oedolyn yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew.



Mae 1 o bob 4 plentyn yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew.



Rydym ni'n gweithio â gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd lleol, yn ogystal â'r sector y tu allan i'r cartref (bwytai, tafarndai, siopau, sefydliadau tecawê, caffis ac eraill) ar raglen 4-5


mlynedd o'r enw Bwyta'n Dda, Dewis yn Well (EWCB). Byddwn ni'n cefnogi busnesau bach a chanolig lleol yng Ngogledd Iwerddon i wella cynyrrch bwyd, yn ogystal â gwella argaeledd prydau bach a/neu prydau llai i wneud y dewis iach yn hawdd i ddefnyddwyr. Mae ein cynllun gweithredu a'n cynllun cyflawni yn cyd-fynd â chynllun gweithredu lechyd Cyhoeddus Lloegr, mewn perthynas â lleihau faint o siwgr a chaloriâu y mae plant yn eu bwyta. Yn ogystal, rydym ni'n aelod o'r grŵp ailformiwliddio yng Ngweriniaeth Iwerddon sy'n sicrhau bod blaenoriaethau wedi'u halinio ar draws ynys Iwerddon.

Fel rhan o'r rhaglen EWCB, fe wnaeth yr ASB, mewn partneriaeth â'r 11 cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon, arolygu a samplu sgons ar werth mewn siopau coffi ar y stryd fawr ar draws Gogledd Iwerddon. Dadansoddwyd cynnwys maeth y sgons a chyhoeddwyd y canlyniadau mewn adroddiad o'r enw 'Cynnwys Maeth Sgons³' yn ystod mis Chwefror 2019.




Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn llywio ymyriadau wedi'u targedu gyda'r sector pobi, gyda chefnogaeth arbenigedd technegol i gynyddu argaeledd cynhyrchion iachach mewn siopau bara a siopau coffi lleol.

O fewn y sector 'y tu allan i'r cartref', caiff y cynllun 'Calorie Wise' ei ddarparu mewn partneriaeth â'r 11 cyngor dosbarth. Mae'r cynllun hwn yn annog busnesau i labelu calorïau bwyd a diod yn wirfoddol ar eu bwydleni, gyda chymorth gan adnodd ar-lein am ddim yr ASB sy'n cyfrifo calorïau, o'r enw MenuCal. Mae'r ASB a chynghorau dosbarth wedi bod mewn cysylltiad â busnesau lleol ers lansio'r cynllun, drwy weithdai â'r diwydiant, ymwelliadau â safleoedd a galwadau ffôn gan swyddogion iechyd yr amgylchedd lleol.



³ www.food.gov.uk/research/research-projects/a-survey-on-the-nutritional-content-and-portion-sizes-of-scones

Mae'r graff canlynol yn dangos tuedd gynyddol yn nifer defnyddwyr MenuCal:





**Ystadegau
MenuCal**
(diwedd Mawrth 2019)

**1,581 o
ddefnyddwyr**

**8,232
o ryseitiau**

Mae CalorieWise bellach yn cynnig gwobr aur ac arian (a ddangosir isod) yn dilyn ymgynghoriad â busnesau bwyd a swyddogion iechyd yr amgylchedd. Mae'r wobr arian yn gofyn i fusnesau arddangos gwybodaeth am galorïau ar **30%** o eitemau'r fwydlen (wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws yr holl fwydlenni) tra bod y label aur yn gofyn am labelu calorïau'n llawn. Bu ymateb cadarnhaol iawn i'r wobr arian, gyda **93%** o fusnesau yn datgan bod modd cyflawni'r meinu prawf ar gyfer gwobr arian o fewn eu busnes. Rydym ni wedi reciwtio aelod ychwanegol o staff a fydd yn darparu cymorth pwrrpasol i fusnesau o ran gweithredu'r cynllun 'Calorie Wise'.

Hyd yn hyn, mae **6** safle arlwo mewn ysbytai, **3** siop bysgod a sglodion a chadwyn bwyd cenedlaethol oll wedi ennill gwobr aur 'Calorie Wise'



BWYD SY'N PERI RISG: LLAETH YFED AMRWWD (RDM)



Yn 2016, fe gytunodd Bwrdd yr ASB ar fframwaith bwydydd sy'n peri risg. Nod y fframwaith yw sicrhau bod rheolaethau ar fwydydd sy'n peri risg yn cynnal cydbwysedd cywir rhwng diogelu rhag risg, cefnogi dewis defnyddwyr, cefnogi twf ac arloesedd busnesau, tra'n cyflawni uchelgais yr ASB ar gyfer rheoleiddio yn y dyfodol sy'n effeithiol, cymesur, cadarn a chynaliadwy. Defnyddiwyd y fframwaith hwn i adolygu'r risgiau a'r rheolaethau ar gyfer llaeth yfed amrwd (RDM), gan ddod i'r casgliad bod y risg ficrobiolegol sy'n gysylltiedig ag yfed RDM yn y DU wedi cynyddu ers i'r mater hwn gael ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2015.

Ar sail y cynllun dosbarthu asesiad risg microbiolegol ansoddol, ystyrir bod y risg i'r is-boblogaeth sy'n yfed RDM ar hyn o bryd yn ganolig (yn digwydd yn rheolaidd) gydag ansicrwydd canolig. Mae'r cynnydd yn y risg yn adlewyrchu lefelau uwch o gysylltiad oherwydd cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr cofrestredig a chyfaint y cynhyrchu a'r defnydd, ynghyd â chynnydd yn nifer yr achosion o salwch dynol sy'n gysylltiedig ag RDM.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Mae angen canolbwntio rhagor ar RDM oherwydd newid yn yr amgylchedd RDM:


Cyfaint cynhyrchu



Cynhyrchwyr cofrestredig




Nifer y cynhyrchwyr RDM cofrestredig 2014 – 2017



Canllawiau i gynhyrchwyr:

Awgrymodd casgliadau ym mhapur Bwrdd yr ASB a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018⁴ fod diffyg canllawiau i gynhyrchwyr, yn enwedig ar gyfer cynhyrchwyr sy'n newydd i gynhyrchu RDM, ac mai prin oedd y canllawiau a gyhoeddwyd yng Nghymru a Lloegr fel rhan o'r broses gofrestru. Mae'r ASB wedi bod yn cydweithio â'r Undeb Ffermio Cenedlaethol a'r Gymdeithas Cynhyrchwyr Llaeth Amrwd i greu dogfennau canllaw y gellir eu defnyddio gan gynhyrchwyr i gynorthwyo gydag arfer gorau a gofynion cyfreithiol. Rydym ni wedi cyhoeddi dogfen 'Cwestiynau Cyffredin'⁵. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2018, cytunodd Bwrdd yr ASB hefyd i adolygu rheolaethau RDM ac mae'r newidiadau hyn wrthi'n cael eu gweithredu. Mae newidiadau i'r broses gofrestru wedi'u cynnwys o fewn hyn.

Achosion o salwch dynol:



4 www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Raw%20Drinking%20Milk%20-%20FSA%2018-06-07.pdf


5 <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/llaeth-yfed-amrwd>

ADOLYGIAD O FFATRIOEDD TORRI A STORFEYDD OER

Amcan cyffredinol:

MAE BWYD
YN CYD-FYND
Â'R HYN SYDD
AR Y LABEL

Yn Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y llynedd, fe wnaethom ni ymrwymo i gwblhau adolygiad o ffatrioedd torri a storfeydd oer ledled y DU yn dilyn achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn nifer o ffatrioedd torri yn ystod 2017 a dechrau 2018. Cynhaliwyd yr adolygiad i wella lefelau hyder y cyhoedd o ran diogelwch a dilysrwydd cig a brosesir yn y DU. I roi cyd-destun pellach, dyma'r gadwyn dosbarthu cig:



Amcan 2018/19:

Amcan yr adolygiad hwn oedd cyhoeddi adroddiad o ganfyddiadau a chyflwyno canfyddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella i gyd-Fwrdd yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban (FSS) yn nhymor yr Hydref 2018. Cyhoeddodd y tîm adolygu adroddiad ar ganfyddiadau ym mis Hydref 2018 a chyflwyno'r canfyddiadau hynny a **19 argymhelliaid** ar gyfer gwella i gyd-gyfarfod Bwrdd yr ASB/FSS yng Nghaeredin ar 17 Hydref. Cymeradwyodd y ddau Fwrdd y canfyddiadau a'r argymhellion yn llawn a chytunwyd y dylai pob sefydliad fwrw ymlaen â gweithredu argymhellion fel rhan o'u rhagleni moderneiddio unigol, tra'n cynnal ymgysylltiad rheolaidd i sicrhau aliniad.


Methodoleg adolygu:

Rhannwyd yr adolygiad yn dri cham:



Canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad:

Cadarnhaodd canfyddiadau'r adolygiad fod y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio yn addas at y diben i raddau helaeth ond nododd sawl ffordd o wneud y system yn fwy effeithiol trwy annog y diwydiant i gymryd ei gyfrifoldebau am ddiogelwch bwyd yn fwy difrifol. Bydd y camau gweithredu a'r ymatebion y bydd y diwydiant a'r awdurdodau rheoleiddio yn eu cymryd yn:



Cynnydd yn erbyn amcanion:

Ar ôl i Fwrdd yr ASB gymeradwyo canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad, mae'r ASB wedi:

Ymgorffori'n ffurfiol gweithgarwch cyflenwi a sicrwydd yr adolygiad hwn i'r rhaglen
Rheoleiddio Ein Dyfodol fel rhan o'r ffrwd Trawsnewid Gweithredol

Hybu tîm pwrrpasol i flaenorïaethu argymhellion a darparu adroddiadau statws i Bwyllgor Busnes Bwrdd yr ASB. Mae'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal fis Mehefin 2019

Sefydlu Grŵp Llywio ar draws y diwydiant i oruchwylion broses o weithredu argymhellion a chynnal dull o gydweithio

Gwneud cynnydd da tuag at weithredu'r 7 argymhelliaid cyntaf gyda'r nod o wireddu ym mis Mawrth 2019

GWYDDONIAETH A THYSTIOLAETH




Mae gwyddoniaeth, tystiolaeth a gwybodaeth yn parhau i osod sail ar gyfer ein holl waith er mwyn sicrhau ein bod ni'n targedu'r materion iawn yn y ffyrdd mwyaf effeithiol, a bod modd i ni werthuso effaith yr hyn yr ydym ni'n ei wneud. Mae gwyddoniaeth wrth wraidd yr ASB; yn llunio ein blaenoriaethau strategol a llywio ac asesu ein darpariaeth. Mae gwyddoniaeth, tystiolaeth a dadansoddi yn sail i'r holl waith sy'n cael ei nodi o fewn yr adroddiad hwn, o nodi risgau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR); trwy ddeall tueddiadau mewn salwch a gludir gan fwyd a phryderon defnyddwyr i lywio dewisiadau sy'n gwella diogelwch bwyd; a gwerthuso a dangos effaith. Mae Bwrdd yr ASB yn cael adroddiadau rheolaidd ar wyddoniaeth yr ASB, gan drafod barn strategol ar gynnydd, risgau a chyfleoedd yn ei gyfarfod yn y gwanwyn, ac adroddiad perfformiad blynnyddol ar gyflawni yn y Pwyllgor Busnes yn yr hydref. Mae'r trafodaethau hyn yn llywio trafodaeth y Bwrdd ar flaenoriaethau a chynllunio ar gyfer blynnyddoedd ariannol y dyfodol.

Gwariant ar wyddoniaeth:


Mae gwariant yr ASB ar wyddoniaeth a gomisiynir yn allanol yn dod o dan gategorïau *Craidd, Buddsoddi neu Strategol*, gyda phob un yn cefnogi datblygu a chyflwyno blaenoriaethau/gweithgareddau'r ASB mewn ffyrdd gwahanol (**Ffigur 2**).

Ffigur 2: Enghreifftiau o wyddoniaeth allanol yr ASB yn ôl categori gwariant



Ar ôl gweld dirywiad sylweddol 4-5 mlynedd yn ôl, mae cyfanswm y gwariant ar wyddoniaeth yn 2018/19 wedi sefydlogi i raddau helaeth o'i gymharu â 2017/18 (**Ffigur 3**).

Figur 3: Gwariant gwyddoniaeth allanol a chyfanswm y gwariant ar wyddoniaeth fel cyfran o gyllideb yr ASB 2013-2019



O fewn y cyfansymiau hyn, gallwn ni amlygu rhai tueddiadau:

- rhagor o ddefnydd o'r Gronfa Tystiolaeth Strategol o'i gymharu â blynnyddoedd blaenorol
- newid parhaus yng nghydbwysedd gwariant o *craidd i fuddsoddi i strategol*, yn unol â'r llwybr a gymeradwywyd gan y Bwrdd
- cylchoedd rheolaidd yn y lefel a'r math o wariant ar amcanion penodol, wrth iddynt aeddfedu.

Byddem ni'n disgwyl i flaenoriaethau gwyddoniaeth yn y dyfodol barhau â'r tueddiadau hyn. Bydd gwaith strategol yn datblygu cymdeithasau a phartneriaethau pellach, yn ogystal â nodi cyfleoedd i fuddsoddi mewn gwaith newydd wedi'i lywio gan y mewnwlediadau a'r mynediad at arbenigedd a gynhyrchir gan ein cymdeithasau ar AMR/genomeg, data a mewnwlediadau ymddygiadol. Rydym ni'n rhagweld y bydd rhagor o waith ar AMR, wedi'i lywio gan ein gwaith hyd yn hyn, gan gynnwys gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Bwyd ac wedi'i lywio gan wyddoniaeth i'n cadw ar flaen y gad wrth asesu risg. Bydd y Pwyllgor Cynghori newydd ar Wyddor Gymdeithasol yn ein helpu i nodi cyfleoedd i fuddsoddi mewn gwyddorau cymdeithasol sy'n canolbwytio ar flaenoriaethau'r ASB. Wrth edrych ymhellach, bydd Gweithgor arfaethedig newydd y Cyngor Gwyddoniaeth ar Wyddoniaeth Data yn ein helpu i nodi ble y gallwn ni fuddsoddi orau i fanteisio ymhellach ar ddefnyddio data, diagnosteg uwch a deallusrwydd artiffisial (gan gynnwys ar gyfer ROF a'n gweithrediadau yn y dyfodol). Ceir rhagor o wybodaeth drwy: <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-18-09-17-science-update-2018.pdf>

Datblygu ein gallu gwyddoniaeth:

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil (SERS) wedi tyfu'n sylweddol (amcan cyfanswm y twf yw **35%** rhwng Rhagfyr 2017 ac Ebrill 2019). Mae hyn yn rhoi hwb

hanfodol i gapasiti ar gyfer asesu risg microbiolegol a gwenwyneg, wrth baratoi ar gyfer cynnydd yn y galw am asesiadau risg cenedlaethol wrth i ni Ymadael â'r UE.

Fel yr argymhellwyd yn Adolygiad yr ASB o Wyddor Gymdeithasol (2017), mae ein gwaith i drawsnewid ein swyddogaeth gwyddorau cymdeithasol bellach wedi'i weithredu. Fe wnaethom ni ymrwymo i gynyddu gallu'r gwyddorau cymdeithasol o fewn yr Asiantaeth ei hun; gan egluro pa arbenigedd gwyddorau cymdeithasol sydd ei angen ar yr ASB yn fewnol a pha fath o arbenigedd y gall yr ASB fanteisio arno'n allanol, gan sicrhau bod rhagor o gefnogaeth ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol. Nododd yr adolygiad fod newid ymddygiad a chyfathrebu risg yn ddau fæs lle gall yr ASB fynd ati i wella ei gallu.

Ionawr 2018

Daethom â'r tîm mewnwelediad o'r tîm Cyfathrebu i'r tîm Gwyddor Gymdeithasol, gan ddod â sgiliau ac arweinyddiaeth newydd ynghyd â chyfuno dau dîm â gwaith tebyg

Mai 2018

Cynhaliom gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyngori newydd ar Wyddor Gymdeithasol, gyda briff ehangach ac arbenigedd dwfn mewn newid ymddygiad a chyfathrebu risg

Tachwedd 2018

Fe wnaethom ni ehangu ein Symposiwm ar y Gwyddorau Cymdeithasol ar y cyd rhwng yr ASB/Cyngor Ymchwil Economaidd ar gyfer pob un o'r tair gwlad, gan ganiatâu i randdeiliaid allanol weld rhai o'n prosiectau blaenllaw a chyfrannu at themâu ein hagenda ymchwil yn y dyfodol a'u cefnogi

Rhagfyr 2018

Cymeradwyodd y Bwrdd y gwaith a wnaed i sicrhau bod y Gwyddorau Cymdeithasol yn cael yr effaith angenrheidiol, yn enwedig o fewn y fframwaith Dadansoddi Risgiau newydd, a mynegodd y Bwrdd ei hyder yn ein swyddogaeth Gwyddorau Cymdeithasol newydd

Tystiolaeth o'r cysylltiad rhwng cydymffurfio â hylendid bwyd a diogelwch bwyd:

Mae gwaith a gyhoeddwyd yn 2019⁶ yn adrodd canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan arbenigwyr yr ASB a gwyddonwyr allanol yn edrych ar y berthynas rhwng cydymffurfio â chyfraith hylendid bwyd fel y'i hadlewyrchir yn sgoriau'r CSHB a mesurau diogelu bwyd canolradd, sef halogiad microbiolegol samplau bwyd ac achosion o salwch a gludir gan fwyd. Er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer y berthynas rhwng cydymffurfio â chyfraith hylendid bwyd a diogelwch bwyd, cynhaliwyd cyfres o ddadansoddiadau ystadegol gan ddefnyddio mesurau diogelu bwyd canolradd (cymerwyd data o ddwy set ddata wahanol sy'n dal canlyniadau samplau microbiolegol):



Y berthynas rhwng cydymffurfiaeth busnesau bwyd a chanlyniadau samplu halogiad microbiolegol



Y berthynas rhwng cydymffurfiaeth busnesau bwyd a nodi achosion o glefydau a gludir gan fwyd

⁶ www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0956713518304432

Darparodd y rhain **37,304** a **7,115** o ganlyniadau samplu, yn y drefn honno, a oedd yn gysylltiedig â sgôr CSHB y safleoedd cyn cymryd y sampl. Yn yr un modd, cysylltwyd data o **150** o achosion i gael sgôr y safleoedd cyn yr achos. Cynhalwyd dadansoddiad ystadegol i benderfynu a oedd gwahaniaethau rhwng sgoriau safleoedd a'r tebygolrwydd o ganlyniad microbiolegol anfoddhaol neu achos o salwch a gludir gan fwyd.

Er nad yw cydymffurfio â chyfraith hylendid bwyd yn dileu'r risg o achosion neu ganlyniadau samplau anfoddhaol, mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod safleoedd â sgoriau uwch yn llai tebygol o fod â chanlyniadau anfoddhaol neu ddod ar draws achosion.



Mae sefydliadau sy'n cydymffurfio i raddau helaeth (Sgôr CSHB o 3, 4, neu 5) yn debygol o fod â chyfran llai o samplau anfoddhaol na'r rheiny o safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth (Sgôr CSHB o 0,1, a 2) a chydymffurfio gwael (Sgôr CSHB o 0 a 1). Mae safleoedd sy'n cydymffurfio'n llawn (Sgôr CSHB o 5) yn debygol o fod â chyfran llai o samplau anfoddhaol na'r holl safleoedd eraill. Yn yr un modd, mae achosion yn llai tebygol o ddigwydd ar safleoedd sy'n cydymffurfio i raddau helaeth na'r rheiny nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth.


YMWRTHEDD GWRTHFICROBAIDD (AMR)

Mae AMR yn un o flænoriaethâu strategol cenedlaethol y llywodraeth ac mae'r ASB yn pârhau i lenwi'r bwlc mewn perthynas â rôl bwyd o fewn AMR. Ers cyhoeddi papur Bwrdd ar AMR ym mis Rhagfyr 2017, rydym ni wedi gweithio â phartneriaid ar draws y llywodraeth ac wedi helpu i ddatblygu strategaeth AMR ar ei newydd wedd, a gyhoeddwyd ar 24 Ionawr 2019, gyda dull 'Un lechyd' yn cynnwys gweledigaeth 20 mlynedd.

Mae diogelwch bwyd yn rhan o'r strategaeth newydd ac mae'n rhoi cyfle i dynnu sylw at y meysydd gwyliadwriaeth ac ymchwil sydd eu hanben i wella'r sail dystiolaeth wyddonol sy'n ymwneud â rôl bwyd fel llwybr trosglwyddo AMR. Mae'r strategaeth newydd yn cynnwys yr amgylchedd fel cydran allweddol a bydd angen i ni ystyried meysydd lle mae rhwngwneb i'r gadwyn fwyd. Yn rhwngwladol, mae'r DU yn cyfrannu at y Tasglu Codex Alimentarius ar AMR sy'n adolygu'r cod ymarfer i helpu i gefnogi pawb yn y gadwyn fwyd i gymryd camau **i leihau ac ymatal ymwrthedd gwrthficrobaidd**. Mae'r Tasglu hefyd yn datblygu canllawiau ar fonitro ac arolygu integredig ar gyfer AMR a gludir gan fwyd.

Gellir gweld y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag AMR yn Ffigur 4 isod:

Ffigur 4:



Gweithiodd y grŵp yn agos â chydweithwyr o dîm Asesu Risg a Dadansoddi Risg Microbiolegol yr ASB. Adolygydd a gweddau ar fap systemau AMR traws lywodraethol a ddatblygwyd yn 2014, sy'n berthnasol i'r ASB, a datblygwyd map systemau manwl yn cənolbwytio'n benodol ar y gadwyn fwyd.


Nododd y grŵp wyth prif gronfa ddŵr sydd ag effaith AMR bosibl:




Porfeydd a chnydau




Gwelliannau pridd*



Bwyd anifeiliaid



Anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd



Lladd-dai a phrosesu carcassau



Bwyd i bobl




Bodau dynol



Prosesu bwyd eilaid

*Mae gwelliannau yn cyfeirio at ddeunyddiau sy'n dod o wastraff sy'n cael eu lledaenu ar dir i gael rhywfaint o fudd (fel arfer amaethyddol). Er enghraifft, gall deunyddiau sy'n cynnwys nitrogen, potasiwm neu faethynnau eraill wella twf cnydau, ond gallant hefyd gynnwys halogion cemegol neu fiolegol.

Ymdrechion yr ASB o ran ymchwil a gwyliadwriaeth AMR a gwblhawyd ers mis Rhagfyr 2017:



- FS102109: Arolwg Blwyddyn 2 wedi'i gysoni ar AMR mewn cig sy'n cael ei fânwerthu.
- FS102121: Arolwg Blwyddyn 2 ar AMR mewn Campylobacter jejuni a Campylobacter coli o gyw iâr wedi'i oeri sydd ar werth yn y DU.
- FS101196: Arolwg manwerthu newydd ar factoria AMR mewn cyw iâr a briwgig (*mince*) porc sydd ar werth.
- FS102121: Arolwg Blwyddyn 3 wedi'i gysoni ar AMR mewn cig sy'n cael ei fânwerthu.

Mae ymchwil párhaus yn cynnwys:



- FS101185: Diweddariad Cymrodoriaeth Sefydliad Quadram.
- FS101013: Priodoli Ffynhonell Campylobacter aq AMR.

Ymchwil newydd:



- FS301059: Adolygiad Beirniadol o effaith prosesu bwyd ar factoria AMR mewn cig a chynhyrchion cig.
- FS301050: Adolygiad i asesu baich genynnau ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn bwydydd parod i'w bwyta

ALERGENAU

Mae cyffredinolrwydd alergeddau ac anoddefiadau yn amrywio ar draws y byd. Yn y DU, mae tua 2 filiwn o bobl yn dioddef o alergeddau bwyd. Nid oes gwellhad ar gyfer alergedd nac anoddefiad bwyd. Yr unig ffordd i reoli'r cyflwr yw dilyn deiet llym sy'n osgoi bwydydd penodol. Mae hyn yn rhoi straen ar yr unigolyn sydd ag alergedd bwyd a'u teulu a'u ffrindiau hefyd. Er mwyn osgoi bod yr un 'lletchwith' sy'n cyfyngu ar ddewisiadau bwyd neu ble i fwyt, mae'r unigolyn sy'n dioddef yn aml yn teimlo bod yn rhaid iddynt roi eu hunain mewn perygl o gael adweithiau alergedd er mwyn ffitio mewn; mae hyn yn arbennig o wir mewn pobl ifanc.

Ffigur 5: Nodi'r gwahaniaethau rhwng alergedd ac anoddefiad bwyd

	Aleredd Bwyd	Anoddefiad Bwyd
Amser i adwaith ddigwydd		
Faint o fwyd		
Difrifoldeb yr adwaith		


Munudau i oriau
neu Oriau i ddyddiau

Gall fod yn ddifrifol ac arwain at færwolæth


Symptomau cronig

Dangosyddion perfformiad a mesurau ar gyfer Gorsensitifrwydd i fwyd

Ffigur 6: Mae cyfran uwch o bobl yn gorfol mynd i'r ysbty bob blwyddyn oherwydd gorsensitifrwydd i fwyd o'i gymharu â chlefyd a gludir gan fwyd. Fodd bynnag, mae clefyd a gludir gan fwyd yn gyfrifol am bobl yn treulio mwy o amser yn yr ysbty, 47,000 o'i gymharu â 27,000 diwrnod, oherwydd ei ddifrifoldeb.



Mae'r ASB yn cyhoeddi ffigyrâu derbyniadau ysbtyai ar gyfer alergeddau ac anoddefiadau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ymddengys nad yw'r rheolau labelu newydd ar gyfer alergenau, a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2014, wedi cael fawr o effaith ar nifer y derbyniadau i'r ysbty, gan awgrymu efallai nad yw labelu alergenau yn cael effaith sylweddol. Gall hyn fod oherwydd bod derbyniadau i'r ysbty yn fwy cysylltiedig â bwyd sy'n cael ei fwyt yn y cartref; gyda phobl nad oedd yn ymwybodol bod ganddyn nhw alergedd, neu bobl sy'n ymddwyn mewn modd peryglus. Nid yw hyn yn golygu nad yw cyflwyno labeli alergedd bwyd wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau eraill, er enghraift, ei gwneud hi'n haws i reoli'r cyflwr i'r rhai sy'n ymwybodol o'u halergedd. Er mwyn gwella ac ehangu cwmpas y mesurau, mae'r ASB yn dechrau gweithio i wella'r gallu i olrhain ac asesu alergeddau ac anoddefiadau bwyd yn y DU.



Patrymau a chyffredinolrwydd alergeddau bwyd ymysg oedolion

Mae angen sail dystiolaeth gadarn ynglŷn â nifer yr achosion o adweithiau niweidiol, eu patrymau a'u ffactorau risg ar gyfer eu datblygu er mwyn ategu datblygiad polisiau effeithiol sy'n ceisio rheoli, atal a thrin cyflyrau o'r fath. Gan nad yw alergedd bwyd ymysg oedolion wedi cael ei astudio'n systematig yn y DU yn ddiweddar, ni wyddys a yw patrymau, cyffredinolrwydd a ffenoteipiau adweithiau niweidiol i fwylodd mewn oedolion wedi newid dros yr 20 mlynedd diwethaf yn y DU.

Alergeddau bwyd cyffredin ymysg plant	Alergeddau bwyd cyffredin ymysg oedolion
Pysgnau	Pysgnau
Cnau coed	Cnau coed
Pysgod	Pysgod
Pysgod cregyn	Pysgod cregyn
Llaeth buwch	Ffrwythau, fel afalau ac eirin gwlanog
Wyau	Llysiau


Comisiynodd yr ASB astudiaeth ymchwil fawr ym mis Tachwedd 2018 i wella ein dealltwriaeth o alergeddau bwyd ymysg oedolion trwy bennu ei gyffredinolrwydd o fewn poblogaeth oedolion y DU. Bydd yr ymchwil yn darparu data a fydd yn disgrifio taflwybrau'r cyflwr mewn perthynas ag alergedd parhaus o'r plentyndod ac alergedd sy'n dechrau pan fo'r unigolyn yn oedolyn, ynghyd ag adweithiau niweidiol i fwylodd nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan IgE. Disgwylir adroddiad ar yr astudiaeth ddiwedd 2021.

Pobl ifanc ac alergeddau ac anoddefiadau bwyd


Mae ein tîm gwyddorau cymdeithasol wedi arwain ymchwil yn ymwneud â phobl ifanc sydd ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd i ddeall yn well yr heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth fyw gyda'u cyflwr. Cynhaliwyd yr ymchwil mewn partneriaeth ag 'Allergy UK' ac 'Anaphylaxis Campaign' a chafodd ei fwydo i'n hymgyrch #HawddHOLI. Roedd yr arolwg yn seiliedig ar

ymatebion gan 2,599 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn y DU. Mae rhagor o wybodaeth a data drwy gael drwy <https://www.food.gov.uk/research/food-allergy-and-intolerance-research/young-people-and-food-allergies-and-intolerances>.


Crynodeb o'r prif ganfyddiadau mewn perthynas â byw â chyflwr bwyd:




Bwyta allan neu archebu ar-lein yn ystod y 6 mis diwethaf oherwydd eu cyflwr:



Mewn perthynas â chefnogaeth wrth fwyta allan:



Mewn perthynas â gwelliannau:



Cynnydd ar bolisi alergenau'r ASB ar gyfer 2018/19:



Adolygiad ar labelu alergenau bwyd

- Cynhaliwyd darn sylweddol o waith ar y cyd â Defra, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gan ganolbwytio ar gás glu tystiolaeth ar y ffordd orau o wella'r ddarpariaeth o wybodaeth am alergenau ar gynhyrchion bwyd wedi'u pecynnau ymlaen llaw (Hydref 2018)
- Datblygwyd pedwar dewis rheoleiddiol ac an-reoleiddiol ar gyfer ymgynghori:
 1. Canllawiau arfer gorau
 2. Defnyddio labeli 'gofyn i'r staff'
 3. Defnyddio enw'r bwyd a sticer gwybodaeth am alergenau
 4. Darparu rhestr llawn o'r cynhwysion ar y label.
- Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 25 Ionawr a 29 Mawrth 2019 a chynhaliwyd cyfarfodydd rhanddeiliaid wedi'u targedu ar draws y pedair gwlad i drafod y dewisiadau. Yn bresennol yn y gweithdai hyn oedd oedolion ifanc (rhwng 16 a 24 mlwydd oed) a oedd yn dioddef o alergeddau, grwpiau cefnogi cleifion a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, busnesau bwyd ac awdurdodau lleol.
- Roedd hyn yn sicrhau ein bod ni'n dal cwmpas llawn y goblygiadau polisi gan yr holl randdeiliaid.
- Fe wnaethom ni hefyd gynnal trafodaethau alergedd strategol gyda busnesau bwyd mawr. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu gwerthuso gan yr ASB a Defra.



Strategaeth alergedd ac anoddefiad bwyd

- Rydym ni wedi bod yn datblygu strategaeth newydd ar gyfer y degawd nesaf.
- **Nod:** Darparu cyfeiriad strategol clir ac amlinellu camau y byddwn ni'n eu cymryd fel rheoleiddiwr a phencampwr defnyddwyr, i ddiogelu cwsmeriaid sydd ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd.
- Cynhaliwyd diwrnod trafod strategol gyda dros 40 o arbenigwyr alergedd bwyd cenedlaethol a rhwngwladol o amrywiaeth eang o sefydliadau gan gynnwys Allergy Action, Anaphylaxis Campaign, Allergy UK, Consortium Manwerthu Prydain, Coeliac UK, Ffederasiwn Bwyd a Diod, Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a nifer o awdurdodau lleol a phrifysgolion (Mehefin 2018).
- Rhannodd arbenigwyr eu barn ar yr hyn y dylem ni ganolbwytio arno fel rheoleiddiwr a phencampwr defnyddwyr, gan chwarae'r rôl allweddol wrth dylunio ein strategaeth. Mae hyn yn cael ei gwblhau gyda'r bwriad o'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan Fwrdd yr ASB ddiwedd 2019.



Dylanwad ac ymgysylltiad rhyngwladol

- Rydym ni'n cynyddu ein cyfraniad at osod safonau rhyngwladol gyda rolau allweddol yn y Pwyllgorau Codex ar Hylendid Bwyd (CCFH) a Labelu Bwyd (CCFL) lle mae'r DU ac UDA yn gyd-gadeiryddion gyda Chadeirydd Awstralia.
- Mae Cod Ymarfer CCFH ar Reoli Alergenau i weithredwyr busnesau bwyd wedi symud ymlaen i Gam 5 a bydd yn cael ei fabwysiadu gan y Comisiwn Codex Alimentarius (Gorffennaf 2019).
- Trafodir menter newydd i adolygu Safon Codex gyfredol ar labelu bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw yn ogystal â thrafod diweddarus safon labelu alergenau o fewn hyn (**Mai 2019**).
- Nod y mentrau hyn yw gwella ein canllawiau rheoli risg ar asesu risg a beth mae defnyddio cyfeiriadau at alergenau yn ei wneud i danategu penderfyniadau rheoli risg ar ddefnyddio datganiadau labelu alergenau rhagofalus, fel 'gall gynnwys'
- Bydd y rhain yn gwella safon a diogelwch bwyd mewn perthynas â gorsensitifrwydd bwyd ac yn helpu i weithio tuag at gael un dull byd-eang o reoli alergenau.



Tyst arbenigol ac erlyniadau

- Rydym ni'n parhau i gefnogi awdurdodau lleol sy'n ymgymryd âg erlyniadau trwy ddarparu datganiadau tyst arbenigol a thystiolaeth, gan arwain at erlyn busnesau sydd wedi methu â darparu bwyd diogel i'r rheiny sy'n dioddef o alergeddau bwyd.
- Yn ystod 2018, fe wnaethom ni ddarparu tyst arbenigol ar gyfer erlyn perchennog a rheolwr bwyty mewn perthynas â marwolaeth y ferch 15 mlwydd oed, Megan Lee.
- Fe wnaeth y ddau ddyn gael dedfryd o garchar o ddwy a thair blynedd, yn y drefn honno.
- Mae erlyniadau'n anfon neges bwerus i weithredwyr busnesau bwyd am gânlyniadau diffyg pryder o ran rheoli alergenau a'r niwed o bresenoldeb alergenau heb eu datgan mewn bwyd

YMGYRCH ALERGENAU: HAWDD HOLI



Yn y DU, mae cynnydd o **500%** wedi bod yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd alergedd bwyd ers 1990. Mae hefyd yn achosi tua 10 marwolaeth y flwyddyn. Mae oedolion ifanc (16-24 oed) yn arbennig o agored i niwed, am eu bod, yn ôl gwaith ymchwil, yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan eu halergeddau.

Gwnaethom ni gynnal arolwg, mewn partneriaeth ag Allergy UK (AUK) ac Ymgyrch Anaffylacsis (YA) ymhlieth y garfan hon, a ddangosodd fod **60%** o bobl ifanc sydd ag alergedd neu anoddefiad bwyd wedi osgoi bwyta allan yn ystod y chwe mis diwethaf oherwydd eu cyflwr. Dangosodd fod oedolion ifanc yn cymryd risgiau a'u bod nhw'n gallu teimlo gormod o gywilydd i siarad yn gyhoeddus am fyw ag alergedd bwyd, gan roi eu hunain mewn sefyllfa oedd annio gel.



I fynd i'r afael â'r broblem hon, gwnaethom ni lansio ymgyrch o'r enw 'Hawdd Holi' i godi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth am alergenau ar labeli sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac yn benodol i helpu oedolion ifanc i fod yn fwy hyderus wrth ofyn am yr wybodaeth hon wrth archebu bwyd.

Cafodd yr ymgyrch, a ddarparwyd mewn partneriaeth ag Allergy UK a'r Ymgyrch Anaffylacs, ei hamseru i gyd-fynd â'r adeg pan fo pobl ifanc yn byw oddi cartref am y tro cyntaf ac yn sefydlu grwpiau newydd o ffrindiau. Gwnaethom ni sicrhau bod yr ymgyrch yn taro tant â phobl ifanc ar adeg pan fyddant yn chwilio am wybodaeth, a hynny gan ddefnyddio astudiaethau achos i adrodd straeon go iawn dirdynnol drwy ein Cysylltiadau Cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasu a'n partneriaid.

Gwnaeth partneriaid fel awdurdodau lleol, cyrff masnach a manwerthwyr helpu i gefnogi ein hymgyrch a rhannu ein negeseuon drwy eu sianeli eu hunain. Hefyd, gwnaeth busnesau bwyd a gefnogodd yr ymgyrch yn siŵr bod protocolau ar waith i ymateb i geisiadau gwybodaeth am alergenau, ac i dawelu meddyliau cwsmeriaid.

Sgoriodd yr ymgyrch dipyn yn uwch na'r dangosyddion perfformiad allweddol a hefyd fe ddaeth i'r brig fel Ymgyrch Orau Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2018.

HAWDD HOLI: YMESTYN YR YMGYRCH AR GYFER DIWRNOD SAN FFOLANT

Gwnaethom ni hefyd lansio rhywfaint o ddeunydd cyfathrebu ar gyfer Diwrnod San Ffolant, fel ymestyniad i'n hymgyrch #HawddHOLI Iwyddiannus. Fe wnaethom ni barhau i dargedu pobl ifanc sy'n byw ag alergedd ac anoddefiad bwyd, a rhannu cynghorion i godi ymwybyddiaeth o ymddygiadau diogel ar gyfer y dathliad – gan gynnwys camau ar gyfer cadw bwrdd mewn bwyty; neu gynllunio pryd o fwyd gartref sy'n ddiogel i rywun ag alergedd gan ysgogi pobl sy'n mynd ar ddêt i roi gwybod ymlaen llaw fod ganddynt alergedd. Cafodd yr ymgyrch hon ei chyflwyno gennym ni mewn partneriaeth ag elusennau defnyddwyr blaenllaw, sef Allergy UK a'r Ymgyrch Anaffylacsis. O ystyried y gynulleidfa darged, gwnaethom ni barhau i ddilyn ein dull profedig, sef cyfathrebu drwy straeon Instagram ac e-gardiau drwy ein sianeli digidol. Gwnaethom ni hefyd ddefnyddio'r dylanwadwr enwog Jack Fowler (y mae ganddo alergedd difrifol i gnau) i dynnu sylw at bwysigrwydd bod yn hyderus a rhoi gwybod i bobl os ydych chi'n byw ag alergedd/ anoddefiad. Cafodd ein negeseuon eu rhannu gan ystod o bartneriaid, fel awdurdodau lleol, cyrff masnach a manwerthwyr drwy eu sianelu nhw, yn ystod yr wythnos hon o weithgarwch. Cyrhaeddodd yr ymgyrch saith diwrnod o hyd ar y cyfryngau cymdeithasu dros **1.2 miliwn** o bobl.

GWNEWCH YN SIWR BOD CWSMERAID YN DDIOGEL AR DDIWRNOD SAN FFOLANT

#hawddHOLI

- Cofioch atgoffa staff i ofyn am alergenau pan fo'r bwyty yn archefn bwrdd neu'n cymryd archeblion bwyd dros y ffilm, ac eto wrth y bwrdd
- Mae'n bwysig rhoi gwybod i staff am unrhyw gynnwysion alergenaidd wrth gyflwyno prydau newydd ar y fwydien
- Hyd yn oed pan fo'r bwyty yn brysur, gwiriuwrch yr archeblion sydd ag anghenion alergenau penodol umwaith eto
- Dymewch yn siŵr bod eich ffolderi alergenau yn gyfredol gyda'r wybodaeth gywir
- Mae cynhwysion wedi'u labelu'n glir ac ar ymyrbebau gâñ yn helpu i osgoi croeshalegi mewn ceigin brysor ac eraillseodd gweini

GWNEWCH YN SIWR BOD CWSMERAID YN DDIOGEL AR DDIWRNOD SAN FFOLANT

#hawddHOLI

BYDDA'N DDIOGEL AR DDIWRNOD SAN FFOLANT

#hawddHOLI

- Byddai'n barod**
Dyma'r bwyty ymlaen llaw ar mwyn holl am alergenau, a gofyn eto ar ol cyrraedd
- Anheg addas**
Beth am anghywstru anheg sy'n addas i dy alergedd?
- Dîl diogel**
Dyma'r asiar dy fod yn cario dy EpiPen bob amser
- Siewmis am sws?**
Dyma'r asiar fod dy bartner yn osgoi bwyd sy'n gallu achosi adwaith os wyt i'n gobeithio cael casan (Dall alergenau aros yn y geg am hysd at bedair awwr)
- Ti sy'n bwysig**
Cofia, ni ddyli alergenau fod yn broblem os yw'r rhwystr wrth ym poseni amelanol ti


BYDDA'N DDIOGEL AR DDIWRNOD SAN FFOLANT

#hawddHOLI


ENW DA AC YMDDIRIEDAETH Y CYHOEDD

Rydym ni'n olrhain ymddiriedaeth y cyhoedd gan ddefnyddio arolwg tracio ers 2001. Mae cwestiynau yn cwmpasu sawl maes o ddiddordeb i'r Asiantaeth, gan gynnwys pryder ynghylch materion diogelwch bwyd, ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd, ymwybyddiaeth o'r ASB a'i chyfrifoldebau, ymddiriedaeth yn yr ASB a'r diwydiant bwyd, a hyder mewn labeli bwyd.

Ymwybyddiaeth o'r ASB



Ymddiried yn yr ASB i gyflawni ei swyddogaeth



Yn rhan o Gylch 17 (Tachwedd 2018), nododd 77% o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ASB. Mae hyn yn debyg i'r cylch blaenorol (79%).


O'r rhai hynny a oedd yn ymwybodol o'r ASB, roedd 69% yn ymddiried ynddi i ddweud y gwir ac roedd 67% yn ymddiried ynddi i gyflawni ei swyddogaeth. Ar lefel ehangach, roedd 74% yn ymddiried bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label ac wedi'i labelu'n gywir, ac roedd 59% yn ymddiried yn y ffaith bod y diwydiant bwyd yn cael ei reoleiddio'n deg. Mae ymddiriedaeth yn yr ASB yn amrywio ychydig rhwng pobl yng Nghymru (68%), Lloegr (65%) a Gogledd Iwerddon (86%).

DATA AGORED

Mae data agored yn golygu data y mae pawb yn gallu ei ddefnyddio a'i rannu. Un o'n hamcanion yw dod yn sefydliad wedi'i yrru gan ddata a bod ein data yn agored yn ddiofyn. Mae catalog data agored yr ASB ar gael yma <https://data.food.gov.uk/catalog>


Eleni, rydym ni wedi gwneud cynnydd gwych wrth fwrw ein targed o gyhoeddi cymaint o'n data fel data agored aq sy'n bosibl, gan helpu eraill i sicrhau bod eu data yn addas i'w gyhoeddi a gwneud yn siŵr fod ganddyn nhw'r sgiliau a'r offer i'w gyhoeddi eu hunain. Flwyddyn nesaf, rydym ni eisiau cynnal ein cyfraddau cyhoeddi a chanolbwytio ar wella ansawdd ein setiau data a'u dogfennae adegol. Mae'r siartiau isod yn dangos ein cynnydd o ran cyflawni ein nod 'agored yn ddiofyn'.

Cynnydd o ran cyhoeddi data agored: 321 o setiau data wedi'u nodi:




Targed: Cyflawni cyfran mor uchel â phosibl o ddata wedi'i gyhoeddi, gan gyfrif am ddata nad oes modd ei gyhoeddi am resymau diogelu data, rhesymau masnachol, rhesymau diogelwch neu resymau cysylltiedig eraill.

Sgôr Bod yn Agored o 2,024 o ffeiliau wedi'u cyhoeddi:




Mae setiau data yn cael sgôr syml gan ddefnyddio sêr sy'n seiliedig ar y system 'Pum Seren Bod yn Agored' a ddatblygwyd gan Tim-Barners-Lee. Mae'r meini prawf wedi'u seilio ar fformat ffeil gyhoeddedig a'n targed ni yw 3 seren.

Catalog data – nifer y bobl sydd wedi ymweld ar-lein yn ôl maes diddordeb:




AROLWG POBL




Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn rhoi llais i'n gweithwyr a chyfle i roi gwybod i uwch-reolwyr beth sy'n eu helpu nhw i berfformio ar eu gorau a beth arall gallwn ni ei wneud i wella'r ffordd yr ydym ni'n cyfathrebu ac yn gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd. Rydym ni'n cael llawer o ddata ar yr hyn y gellir ei wella ond hefyd ar yr hyn sy'n gweithio'n dda yn yr ASB. Cafodd yr arolwg hwn ei gynnal ym mis Hydref 2018 ac fe gynyddodd sgôr ymgysylltu â chyflogion yr ASB o 60% yn 2017 i 64% yn 2018, sef ein lefel ymgysylltu uchaf hyd yma.

Mae sgoriau wedi cynyddu ym mhob un o'r naw prif thema, ac fe gyraeddodd wyth allan o naw eu sgôr uchaf erioed. Y cynydd mwyaf oedd yn y maes "Dysgu a Datblygu" (+7%).


Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2009-2018



Sgôr Ymgysylltu'r Arolwg Pobl



Rydym ni wedi ddatblygu cynllun gweithredu corfforaethol i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn yr arolwg pobl. Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwytio ar bedair thema allweddol:



Mae'r ffeithlun isod yn dangos y cynnydd a'r gostyngiad mwyaf mewn sgoriau % cadarnhaol:



11%

Cynnydd mewn rheolwyr llinell sy'n credu bod yr ASB yn eu cefnogi nhw i fod yn arweinwyr tîm da **(78%)**



10%

Cynnydd yn y rhai hynny sy'n credu bod cyfleoedd i ddatblygu eu gyrrfa yn yr ASB **(60%)**



9%

Cynnydd mewn staff a fyddai'n argymhell yr ASB fel lle gwych i weithio **(58%)**



3%

Gostyngiad yn y rhai hynny sy'n credu bod camau effeithiol wedi'u cymryd yn eu swyddfa nhw mewn perthynas â chanlyniadau'r arolwg diwethaf **(45%)**



3%


